

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Peilot Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb: Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru

Mai 2022



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey

Mai 2022

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestrdig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bryste, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion Cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Y We: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
Cyflwyniad.....	5
1 Profiadau Cyffredinol y Peilot.....	9
2 Canllawiau a Chod.....	17
3 Paratoi a Chynllunio.....	21
4 Agwedd Ysgol Gyfan.....	29
5 Dysgu Traws-gwricwlaidd.....	31
6 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu.....	34
7 Ymgysylltu â Rhieni a'r Gymuned.....	35
8 Adnoddau a Chefnogaeth.....	42
9 Casgliadau.....	45

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Cynllun Peilot Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Mae'r adroddiad wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno ACRh yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'n cynnwys dysgu, ystyriaethau ac awgrymiadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau ledled Cymru i'w helpu i feddwl am sut y gallent fynd i'r afael ag ACRh.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021–22, bu ymarferwyr o 15 o ysgolion yn ddigon caredig i ymgymryd ag ystod o weithgareddau wrth gynllunio a dylunio'r cwricwlwm ACRh newydd yn eu hysgol neu'u lleoliad. Yma rydym yn cyflwyno crynodeb byr o'r canfyddiadau. Ceir amlinelliad manylach o brofiadau ysgolion, gan gynnwys dysgu ac awgrymiadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill, yn y penodau dilynol.

Profiadau Cyffredinol y Peilot

Yn ystod y Peilot, daeth llawer o ysgolion i ystyried eu hymwneud â'r cwricwlwm ACRh newydd fel taith. Wrth i ysgolion archwilio ACRh, mae tystiolaeth gref bod ystod o ffactorau, i raddau amrywiol, wedi chwarae rhan wrth lunio ymgysylltiad. Roedd y rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, ffactorau unigol megis gwybodaeth, profiad a hyder arweinwyr ACRh, yn ogystal â ffactorau ehangach yr ysgol megis diwylliannau dysgu a chymorth.

Awgrymiadau:

Ystyried yr ystod o ffactorau unigol, sefydliadol a diwylliannol a all ddylanwadu ar ymgysylltu ag ACRh a'r cwricwlwm yn ehangach o fewn ysgol neu leoliad. Gellid defnyddio hyn i adnabod cryfderau a meysydd posibl i'w gwella, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau posibl i ymgysylltu'n effeithiol ag ACRh.

Ymddiried cynllunio a dylunio ACRh gyda staff mwy profiadol, gan gynnwys y rhai a allai fod wedi addysgu agweddau ar ACRh yn flaenorol. Os nad yw hyn yn bosibl, sicrhau bod staff llai profiadol yn cael cymorth agosach, gan gynnwys cyngor, arweiniad a hyfforddiant ehangach.

Creu, cynnal a hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr ymgynnull, gan gynnwys o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau, er mwyn trafod a rhannu dysgu mewn perthynas ag ACRh.

Ystyried ymgysylltu ag ACRh o fewn archwiliad ehangach o'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer llawer o ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas nid yn unig ag ACRh ond hefyd ag egwyddorion arweiniol y cwricwlwm a'r ymagwedd at y cwricwlwm yn ehangach.

Canolbwyntio hyfforddiant a chefnogaeth ar sicrhau bod cydweithwyr yn hyderus yn eu dealltwriaeth o ddarpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys strategaethau ymarferol ar gyfer sefydlu lle mae dysgwyr, a sut i lywio sgysiau ar bynciau sensitif.

Canllawiau a Chod

Gofynnwyd i'r ysgolion a gymerodd ran sut y maen nhw'n defnyddio canllawiau i hysbysu addysgu a dysgu. Daeth dwy thema benodol i'r amlwg, gan gynnwys tynnu ar ganllawiau i lywio'r cynllunio a'r paratoi, ac fel adnodd ymarferol ar gyfer addysgu a dysgu.

Ar y cyfan, teimlwyd bod y Canllawiau drafft yn hygyrch ac yn ddefnyddiol o ran deall y themâu a'r pynciau o sylwedd sy'n rhan o ACRh. Roedd hyn yn arbennig o amlwg o ran naws ac iaith y Canllawiau, a'r hyd (a oedd yn ei gwneud yn hawdd ymgysylltu). Roedd rhai meysydd yn y Canllawiau drafft y teimlai ysgolion y gellid eu cryfhau. Dywedodd llawer y gallai canllawiau manylach fod yn werthfawr wrth helpu ymarferwyr i ddelweddu ACRh yn ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys darparu diffiniadau cliriach o gysyniadau a syniadau allweddol o fewn ACRh, yn ogystal ag adnoddau a chanllawiau pellach ar sut y gellid gweithredu'r cwricwlwm ACRh newydd.

Roedd amrywiaeth ym marn a safbwyntiau'r ysgolion a gymerodd ran mewn perthynas â'r Cod drafft. Teimlai rhai, er enghraifft, fod y dadansoddiad o ddarpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad yn werthfawr ac yn llawn gwybodaeth: Teimlai eraill y gallai mwy o fanylion fod yn werthfawr, gan gynnwys darparu gwybodaeth bellach i sefydlu union baramedrau'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad.

Cynnydd dros Gyfnod y Peilot

Roedd amrywiaeth sylweddol yn natur a graddau'r cynnydd yr oedd yr ysgolion a gymerodd ran wedi gallu ei wneud wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer cwricwlwm ACRh. Yn fras, roedd yr ysgolion a gymerodd ran wedi gallu gwneud cynnydd ar hyd continwrm, o wneud synnwyr i fynd ati i gynllunio ACRh o fewn ac ar draws y cwricwlwm.

O ran gwneud synnwyr, roedd pob ysgol a gymerodd ran yn gallu gwneud cynnydd sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder mewn perthynas ag ACRh. Lle'r oedd ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynllunio a pharatoi, roedd hyn yn cynnwys cwblhau ystod o gamau ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, ymgysylltu â dysgwyr a chydweithwyr i ddeall eu barn am ACRh. Dywedodd rhai ysgolion eu bod wedi gallu ystyried sut y gellid addasu neu gyflwyno elfennau arwahanol o ACRh i addysgu a dysgu a oedd yn adlewyrchu'r cwricwlwm newydd. Roedd rhai ysgolion wedi gallu mynd ymhellach i ystyried sut y gellid gwreiddio ACRh yn fwy rheolaidd mewn dysgu trawsgwricwlaidd.

Awgrym:

Ystyried datblygu timau bach i arwain ACRh, yn enwedig o fewn ysgolion cynradd. Gallai'r tîm gynnwys aelodau â chymysgedd o wybodaeth a phrofiad. Gall hyn helpu ymarferwyr i feithrin gwybodaeth a hyder, yn ogystal â lleihau maint y dasg ar gyfer unrhyw un unigolyn.

Ffyrdd o Weithio

Roedd ACRh yn y rhan fwyaf o achosion yn cael ei arwain gan aelod unigol o staff. Roedd amrywiaeth sylweddol yn hynafedd a phrofiad arweinwyr ACRh, o athrawon newydd gymhwyso i uwch arweinwyr. Mewn ysgolion uwchradd, roedd arweinwyr ACRh yn fwy tebygol o fod yn arbenigwyr pwnc.

Roedd dull allweddol o gynllunio a pharatoi a godwyd gan y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys adolygiad o'r cwricwlwm ACRh newydd ac ystyried sut mae'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol. Roedd llawer o ysgolion hefyd wedi defnyddio ymgysylltu â dysgwyr, cydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr mewn sgwrs, gan gynnwys deall eu safbwyntiau, i gefnogi cynllunio a pharatoi.

Awgrymiadau:

Defnyddio dulliau fel archwiliadau cwricwlwm neu fapio a bylchau yn gynnar yn y broses o ymgysylltu ag ACRh. Gall hyn fod yn werthfawr wrth feithrin gwybodaeth a hyder, yn ogystal â blaenoriaethu meysydd ffocws wrth ymateb i'r cwricwlwm newydd.

Lle bo modd, tynnu ar lais y dysgwr yn gynnar yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm newydd. Gall hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm, yn ogystal ag wrth gyfathrebu â chydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr am yr ymagwedd at ACRh a fabwysiadwyd yn yr ysgol neu'r lleoliad.

Tawelu meddwl cydweithwyr ehangach ar draws ysgol neu leoliad. Gallai hyn gynnwys darparu cyfleoedd i drafod neu rannu pryderon, yn ogystal â chyfleu negeseuon sy'n ceisio egluro natur a graddau eu rôl wrth ddylunio a chyflwyno ACRh, yn enwedig wrth sefydlu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm. Ar ben hynny, gall fod yn werthfawr rhoi enghreifftiau ymarferol i bob cydweithiwr o'r cysylltiadau neu'r mathau o ddeunyddiau y gellid eu harchwilio gyda dysgwyr.

Ymgysylltiad Rhieni a Gofalwyr

Roedd llawer o'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion yn ymwneud yn bennaf â safbwyntiau rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau bod ACRh yn sensitif i'w safbwyntiau, eu gwerthoedd a'u credoau. Pan aethpwyd at ysgolion neu leoliadau gyda phryderon, roedd y rhain yn tueddu i fod yn ynysig ac oddi wrth nifer fach o rieni neu ofalwyr. Roedd hyn weithiau er mwyn canfod mwy o wybodaeth am y cwricwlwm newydd a sut y byddai'r ysgol yn ymdrin ag ACRh.

Disgrifiodd ysgolion eu bod yn ymgymryd neu'n bwriadu ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Awgrymodd rhai eu bod wedi profi rhwystrau i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr oherwydd y pandemig COVID-19. O'r rhai a ymgysylltodd â rhieni a gofalwyr, roedd hyn yn aml yn canolbwyntio ar ddeall safbwyntiau grŵp bach o rieni neu ofalwyr wrth gefnogi cynllunio a dylunio'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys dod â rhieni a gofalwyr ynghyd i drafod syniadau, archwilio unrhyw bryderon, a chasglu awgrymiadau ar sut y gellid cryfhau'r cwricwlwm, megis sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysol.

Casgliadau

Yn gyffredinol, darparodd y Peilot ystod o fewnwelediadau gwerthfawr i sut mae ysgolion yn ymdrin ag ACRh, yn ogystal â galluogwyr ymarferol a rhwystrau i gynllunio a pharatoi. Mae profiadau ysgolion Peilot yn amlygu pwysigrwydd y wybodaeth, y profiad a'r hyder sydd gan arweinwyr a chydweithwyr ehangach wrth gefnogi eu hymwneud ag ACRh. Gallai caniatáu amser a lle ar gyfer gwneud synnwyr, gan gynnwys archwilio'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh, fod yn werthfawr wrth gefnogi cynnydd wrth wreiddio ACRh o fewn cwricwlwm ysgol.

Mae profiad yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng gwybodaeth a hyder. Wrth i arweinwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd, roeddent yn tueddu i adrodd llai o bryderon sylweddol a'u bod yn fwy bodlon ar sut y gallent fynd ati i addysgu a dysgu. Roedd pwysigrwydd a dulliau o sicrhau addysgu a dysgu sy'n briodol i ddatblygiad yn ystyriaeth allweddol wrth feithrin hyder.

Arweiniodd y Peilot at ystod o ddeilliannau cadarnhaol, ar gyfer yr ysgolion a gymerodd ran ac o ran llywio datblygiad y canllawiau a'r cymorth a gynigir i ysgolion ledled Cymru. Cafodd safbwyntiau'r ysgolion a gymerodd ran eu bwydo i'r broses o gryfhau'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft. At hynny, roedd yr ysgolion a gymerodd ran wedi tynnu sylw at effaith gadarnhaol y Cynllun Peilot wrth gefnogi eu hymgysylltiad ag ACRh.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Cynllun Peilot Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Mae'r adroddiad wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno ACRh yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'n cynnwys dysgu, ystyriaethau ac awgrymiadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau ledled Cymru i'w helpu i feddwl am sut y gallent fynd i'r afael ag ACRh.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021–22, bu ymarferwyr yn ddigon caredig i ymgymryd ag ystod o weithgareddau wrth gynllunio a dylunio'r cwricwlwm ACRh newydd yn eu hysgol neu leoliad. Ceisiodd y Peilot gynhyrchu dysgu a syniadau y gellid eu rhannu ag ysgolion a lleoliadau eraill. Comisiynwyd yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru a'i chwblhau gan Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol.

Cefndir

Cwricwlwm i Gymru

Mewn partneriaeth ag ymarferwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r cwricwlwm newydd yn ceisio gweddnewid addysg a dysgu mewn ystafelloedd dosbarth ac yn cynrychioli symudiad o ddiwylliant cymharol ragnodol o amgylch y cwricwlwm tuag at ddull mwy datblygiadol sy'n gosod athrawon fel cyfryngau newid a datblygwyr proffesiynol y cwricwlwm. Mae'n arddel arferion sy'n canolbwyntio'n fwy amlwg ar y myfyriwr nag o'r blaen, yn seiliedig ar ddatblygu galluoedd penodol mewn pobl ifanc. Nod y cwricwlwm newydd yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ddod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Fel rhan o'r cynigion, mae ACRh yn chwarae rhan bwysig yn y cwricwlwm sy'n cael ei arwain gan ddiben, gan gefnogi pob dysgwr i symud ymlaen tuag at y pedwar diben.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r cwricwlwm ACRh newydd yn ceisio creu cymunedau ysgol diogel a grymusol lle gall dysgwyr dyfu, dysgu a datblygu perthnasoedd iach cadarnhaol am oes. Mae ACRh yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddysgu am:

- Bob math o berthynas iachusol, megis teuluol, cyfeillgarwch, ac, yn nes ymlaen, perthynas bersonol.
- Swyddogaethau newidiol y corff dynol a sut maen nhw'n dylanwadu ar ymddygiad a pherthnasoedd.

- Dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol ar gynrychioliadau'r corff a pherthnasoedd.
- Cefnogi dysgwyr i gadw'n ddiogel ar-lein ac all-lein a deall ble i geisio cymorth pan fo angen.

Datblygwyd y cwricwlwm ACRh trwy broses o gyd-lunio, lle cafodd ymarferwyr ledled Cymru gefnogaeth agos gan addysgwyr, arbenigwyr, a chynrychiolwyr eraill, gan gynnwys gan grwpiau ffydd. Gyda'i gilydd, buont yn ystyried diben ACRh a sut y gallai gwmpasu'r ethos a'r ymagwedd ehangach sydd wedi'u cynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru.

Egwyddor allweddol sy'n llywio ACRh yw pwysigrwydd darparu cyfleoedd dysgu sy'n briodol i ddatblygiad. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys oedran, gwybodaeth ac aeddfedrwydd dysgwr ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â rhagweld eu datblygiad ffisiolegol ac emosiynol.

Datblygwyd y Cod ACRh er mwyn gosod cynnwys gorfodol ar gamau datblygiadol priodol i gefnogi ysgolion a lleoliadau ac i roi sicrwydd i rieni ynghylch yr hyn a addysgir i'w plant. Mae'r canllawiau statudol yn rhoi cymorth pellach i ysgolion gyda'u cynllunio a'u cyflwyno. Mae'r Cod ACRh llawn a'r Canllawiau Statudol i'w gweld trwy glicio [yma](#).

Peilot ACRh

Er mwyn archwilio ACRh yn ymarferol a chefnogi'r gwaith o fireinio'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh, gwahoddodd Llywodraeth Cymru ysgolion o fewn un awdurdod lleol i gynnal Peilot. Aeth y Peilot ati i archwilio profiadau a chanfyddiadau ymarferwyr wrth iddynt lywio ACRh ac ystyried sut y gellid ei ymgorffori yn eu hysgol neu leoliad.

Ceisiodd y Peilot ymgysylltu â chymysgedd o ysgolion, gan gynnwys yn y math a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bu 15 o ysgolion yn ddigon caredig i gymryd rhan yn y Peilot i gyd. Roeddent yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, yn ogystal ag ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), ac ysgolion o natur grefyddol.

Roedd gan y Peilot ddau amcan cydgysylltiedig:

1. Deall gwerth a chyfyngiadau'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft o safbwynt yr ysgolion sy'n cymryd rhan. Roedd hyn er mwyn bwydo canfyddiadau cynnar yn ôl i'r gwaith o fireinio a gwella'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh terfynol.
2. Tynnu gwersi allweddol o brofiadau'r ysgolion a gymerodd ran wrth iddynt archwilio ACRh, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer cynllunio, addysgu a dysgu. Mae hyn er mwyn darparu adnodd ymarferol i ysgolion eraill ledled Cymru i'w helpu i adeiladu ar y dysgu hwn.

Dyrannwyd £3,000 i bob ysgol i gefnogi rhyddhau'r ymarferydd ACRh arweiniol i gymryd rhan yn y Peilot a phrofi'r Cod a'r Canllawiau ACRh drafft. Fe'u gwahoddwyd i adolygu'r dogfennau ac adrodd yn ôl, yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau ehangach megis ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.

Gwahoddwyd yr ysgolion a gymerodd ran i rannu eu barn a'u profiadau o fewn prosiect ymchwil o amgylch y Peilot. Mynychodd yr ysgolion a gymerodd ran dri chyfweiliad lled-strwythuredig yn ystod y Peilot. Fe'u cynlluniwyd i ddeall gwerth y Cod a'r Canllawiau Statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drafft wrth lywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, ac wrth gasglu'r hyn a ddysgwyd o unrhyw waith cynllunio a pharatoi yr oeddent wedi'i wneud yn ystod y Peilot. Cwblhawyd y rhain rhwng Gorffennaf 2021 a Chwefror 2022 a dyma ffocws yr adroddiad hwn.

Dull

Wrth fynd i'r afael ag amcanion y Peilot, defnyddiwyd dyluniad ymchwil ansoddol er mwyn casglu profiadau a safbwyntiau'r ysgolion a gymerodd ran. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig manwl gydag ysgolion a gymerodd ran dros dri phwynt amser yn ystod blwyddyn academiaidd 2021–22. Cynhaliwyd pob cyfweiliad ar-lein.

Yn y cyfweiliad agoriadol ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ymarferwyr am eu barn ar y Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft. Ar ben hynny, gofynnwyd iddynt rannu eu safbwyntiau a'u pryderon ehangach ynghylch ACRh, yn ogystal â sut y byddent yn mynd ati i gynllunio a pharatoi o fewn y Peilot.

Cynhaliwyd cyfweiliadau dilynol ym mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022. Roedd y rhain yn ceisio archwilio'r cynnydd yr oedd ysgolion wedi'i wneud o ran cynllunio a pharatoi, yn ogystal ag amlygu'r hyn a weithiodd yn dda ac unrhyw rwystrau neu heriau yr oeddent wedi'u profi wrth weithio tuag at ACRh. Roedd y cyfweiliadau hefyd yn archwilio sut roedd ysgolion wedi mynd ati neu'n bwriadu mynd ati i ymgysylltu, gan gynnwys gyda dysgwyr, eu rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr, a'r gymuned ehangach.

Cwblhaodd pob ysgol o leiaf un cyfweiliad dilynol. Er gwaethaf ymdrechion gorau i fod yn hyblyg a chefnogi ymgysylltiad â'r Peilot, nid oedd pob ysgol yn gallu mynychu pob cyfweiliad dilynol. Roedd hyn oherwydd amrywiaeth o faterion, gan gynnwys absenoldebau a newidiadau staff, yn ogystal â'r tarfu a brofodd rhai ysgolion o ddydd i ddydd oherwydd pandemig COVID-19.

Dadansoddi a Dehongli

Er mwyn cefnogi dadansoddi a dehongli, lluniwyd trawsgrifiadau o bob cyfweiliad. Yna dadansoddwyd y rhain gan ddefnyddio dadansoddiad thematig, a oedd yn anelu at nodi'r prif syniadau a safbwyntiau a gynigiwyd mewn sgysiau ag ymarferwyr. Defnyddiwyd hwn i greu fframwaith thematig a oedd yn amlygu'r ystod o safbwyntiau ar draws yr ysgolion a gymerodd ran mewn perthynas â'r materion dan sylw, a ddefnyddiwyd wedyn i archwilio tueddiadau ar draws yr ysgolion a gymerodd ran, gan gynnwys themâu a oedd yn benodol i grwpiau penodol o ysgolion.

I gefnogi dehongli'r canfyddiadau, trefnwyd gweithdy gyda'r ysgolion a gymerodd ran i archwilio'r prif bwyntiau i'w tynnu o'r ymchwil. Gwahoddwyd yr ysgolion a gymerodd ran i fynychu'r sesiwn (n=8) a chyflwynwyd y canfyddiadau dros dro. Roedd y safbwyntiau ar y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg yn tueddu i gadarnhau'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Wrth gyfleu'r canfyddiadau, mae'r ardal Beilot a'r ysgolion a gymerodd ran yn ddiennw er budd cyfrinachedd.

Cyfyngiadau

Mae nifer o gyfyngiadau o fewn yr ymchwil hwn sy'n bwysig i'w nodi. Gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau bod grŵp amrywiol o ysgolion yn cymryd rhan yn y Peilot. Roedd y Peilot yn cynnwys ystod eang o ysgolion yn gwasanaethu cymunedau penodol o fewn un awdurdod lleol. Gall fod gan ysgolion sy'n cymryd rhan nodweddion sylfaenol, gan gynnwys yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a all fod yn benodol iawn i'r ardal neu ysgol unigol. Ceisiodd trefniadaeth y Peilot hefyd fod mor agos at yr amodau y byddai ysgolion eraill yn eu profi wrth ymwneud ag ACRh. Fodd bynnag, cafodd yr ysgolion a gymerodd ran gyllid ychwanegol (£3,000) a chymorth - gan gynnwys drwy drafodaethau ar draws cyfweiliadau manwl - na fyddai ysgolion neu leoliadau eraill yn gallu'u cyrchu. Gallai'r rhain a ffactorau eraill fod wedi dylanwadu ar ymateb yr ysgolion a gymerodd ran i ACRh o fewn y Peilot, yn rhannol o leiaf.

Dylid ystyried canfyddiadau'r Peilot felly fel rhai sy'n rhoi syniad o'r problemau y gallai pob ysgol eu profi wrth ymgysylltu ag ACRh, yn hytrach nag fel adroddiad diffiniol. Ymhellach, dylai'r ymatebion a'r dulliau gweithredu a fabwysiadwyd neu a hyrwyddir gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan gael eu hystyried fel rhai enghreifftiol. Mae'n bwysig ystyried a yw'r syniadau neu'r awgrymiadau a gynigir ar draws yr adroddiad hwn yn addas ar gyfer ysgolion neu leoliadau penodol.

1 Profiadau Cyffredinol y Peilot

Yma rydym yn cynnig rhai ystyriaethau cyffredinol a dysg a gynhyrchwyd gan y Peilot. Ar ben hynny, rydym yn archwilio negeseuon o ymchwil ehangach a all gefnogi ein dealltwriaeth o brofiadau ysgolion sy'n cymryd rhan, gan gynnwys Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Pwysigrwydd ACRh o fewn y Cwricwlwm Newydd

Roedd cytundeb eang ymhlith ymarferwyr ynghylch y rhesymeg gyffredinol y tu ôl i ACRh. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd sefydlu egwyddorion parch a diogelwch, yn ogystal â grymuso dysgwyr i lywio eu byd cymdeithasol yn hyderus. Teimlai llawer fod y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu ethos neu werthoedd ehangach eu hysgol, yn enwedig o ran pwysigrwydd parchu eraill a'r ffocws ar lesiant dysgwyr. I rai, roedd ACRh yn cadarnhau'r hyn yr oeddent eisoes wedi bod yn ei wneud i gefnogi amgylchedd dysgu cynhwysol:

Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd gennym faterion mawr gyda hil a llawer iawn o sylwadau homoffobig a phethau felly. Felly roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig adolygu a diweddarau ein cynlluniau gwaith. Roeddem eisoes wedi gwneud llawer cyn y cwricwlwm ACRh newydd, ac yn teimlo bod y dull gweithredu yn atgyfnerthu'r hyn yr oeddem eisoes wedi'i wneud.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Roedd rhai ymarferwyr hefyd yn cydnabod bod angen i'w haddysgu esblygu er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol a chyfoes i ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys ymateb i'r themâu a'r materion yr oedd dysgwyr yn eu harchwilio neu'n dod ar eu traws yn eu bydoedd cymdeithasol, yn eu rhyngweithio â chyfoedion ac ar-lein:

Pan oedden ni'n ifanc, efallai y byddech chi'n gweld ychydig o drais yn y cartref ar y teledu ar ryw [math o sebon]. Ond gall plant y dyddiau hyn fflicio o sianel i sianel, fideo i fideo ar YouTube. Mae eu profiad yn hollol wahanol [...]. Ac oni bai ein bod yn eu dysgu sut i ddehongli'r byd hwnnw, nid yw'n mynd i weithio ac nid yw'r plant hyn yn mynd i dyfu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Rydych chi eisiau iddyn nhw fod yn unigolion iach a hyderus. Dyna pam mae hyn mor bwysig.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Roedd cydnabyddiaeth eang hefyd o'r ffocws o'r newydd ar lesiant dysgwyr a adlewyrchwyd yn y cwricwlwm ACRh:

Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd wedi cyffroi ei fod yn canolbwyntio gymaint [ar lesiant dysgwyr] ac roedd yn flaengar, oherwydd i'n pobl ifanc dyna fydd y prif faterion a fyddai'n eu hatal rhag cael mynediad i ysgol brif ffrwd. Felly mae'n un pwysig i ni.

Ymarferydd, UCD

Trafododd eraill werth yr hyblygrwydd ehangach o fewn y cwricwlwm ACRh newydd, gan gynnwys o ran grymuso ymarferwyr i gefnogi dysgwyr yn well ac ymateb yn ddilys o fewn eu cyd-destunau a'u dealltwriaeth eu hunain. Roedd rhai yn gweld hyn fel datblygiad cadarnhaol, gan roi cyfleoedd pellach i ymarferwyr ymateb i anghenion dysgwyr:

Rydw i wedi mwynhau meddwl am yr hyn y gallai pob ffrwd ei gynnwys, oherwydd nid yw'n rhagnodol, sy'n beth da. Mae'n awgrymu'r mathau o bethau sydd angen i ni fod yn eu trafod gyda'r plant. Ac rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n wirioneddol allweddol i ni hefyd yw llais y disgybl.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Dyluniad y Cwricwlwm fel Taith

Yn ystod y Peilot, daeth llawer o ysgolion i ystyried eu hymwneud â'r cwricwlwm ACRh newydd fel taith. Cyffelybodd un ymarferwr ef yn huawdl i fetamorffosis glöyn byw, o'r wy i'r lindysyn ac yna i ymddangosiad yr oedolyn o'r chwiler. O'r safbwynt hwn, mae cynllunio a dylunio'r cwricwlwm yn broses sydd wedi'i fframio gan ymgysylltu, dysgu, trafod ac arbrofi, sy'n digwydd dros amser.

Wrth i ymarferwyr archwilio ACRh yn ystod y Peilot, roedd eu hyder yn tueddu i dyfu. Deilliodd hyn yn aml o ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o ACRh dros amser a sut y gellid ei wreiddio'n effeithiol mewn addysgu a dysgu. Ymhellach, roedd rhai ysgolion yn cydnabod bod cynllunio'r cwricwlwm ynddo'i hun yn broses gyson, un sy'n ceisio gwella a mireinio addysgu a dysgu:

Ni ddylai [Y cwricwlwm ACRh] fod mewn sefyllfa lonydd ar hyn o bryd, oherwydd mae'n mynd i esblygu a newid dros amser, ac mae ein un ni eisoes wedi newid yn ddramatig [...]. Rydym wedi bod yn addasu i wahanol ddulliau, a bydd yn newid eto i gynnwys mwy wrth i ni gaffael a datblygu o ran gwybodaeth, sgiliau, profiadau a hyfforddiant [...]. Rydych chi bob amser yn chwilio am welliannau ac i ddarparu ar gyfer pob dysgwr.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Ymchwil Ehangach a Diwygio'r Cwricwlwm

Mae ymchwil ehangach a all gefnogi ein dealltwriaeth o brofiadau ysgolion sy'n cymryd rhan. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynrychioli symudiad o ddiwylliant cymharol ragnodol o amgylch y cwricwlwm tuag at ddull mwy datblygiadol sy'n gosod ymarferwyr fel cyfryngau newid a datblygwyr proffesiynol y cwricwlwm.

Mae diwygiadau i'r cwricwlwm yn ceisio cefnogi newid yn yr ystafell ddosbarth; fodd bynnag, nid ydynt yn ysgogiad polisi manwl gywir. Maent yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth, cyfnewidiol. Nid yw diwygiadau fel y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd byth yn ynysig, ond yn hytrach wedi'u gwreiddio mewn arferion presennol, fframweithiau polisi, a strwythurau sefydliadol. Gall y ffordd y caiff diwygiadau i'r cwricwlwm eu gwreiddio mewn lleoliadau addysgol ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Nodweddion Lefel Unigol:
 - a. Gwybodaeth am ddiben ac amcanion y diwygiad.
 - b. Agweddau a chanfyddiadau ymarferwyr unigol.
 - c. Galluoedd, gwybodaeth a hyder ymarferwyr.
 - d. Ymddygiad ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth.

- Nodweddion Sefydliadol (ysgol neu leoliad) a Diwylliannol:
 - a. Adnoddau gan gynnwys amser, deunyddiau, a hyfforddiant a chefnogaeth.
 - b. Arweinyddiaeth strategol a gweithredol.
 - c. Capasiti addasol yr ysgol i roi newid ar waith.
 - d. Diwylliannau dysgu ac arfer o fewn ysgolion a lleoliadau unigol.
 - e. Amgylchiadau ehangach y mae'r ysgol yn ei chael ei hun ynddynt, gan gynnwys y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Gyda'i gilydd, mae ymchwil ehangach yn awgrymu bod y ffactorau hyn yn cyfuno i ddylanwadu ar ymatebion unigol a sefydliadol i ddiwygiadau cwricwlwm megis cyflwyno ACRh.¹ Mae tystiolaeth gref o'r Peilot bod y ffactorau hyn, i raddau amrywiol, i gyd wedi chwarae rhan wrth lunio ymgysylltiad ag ACRh.

Roedd pwysigrwydd diwylliannau dysgu, er enghraifft, yn amlwg iawn yn ymatebion ymarferwyr. Cyfeirir atynt yn gyffredin fel cymunedau arfer, a gellir diffinio diwylliannau dysgu, yn rhannol, fel proses o ddysgu cymdeithasol sy'n digwydd pan fydd ymarferwyr yn cydweithio dros gyfnod estynedig o amser. Mae hyn yn cynnwys rhannu a throsglwyddo syniadau, gwerthoedd a strategaethau ymarferol. O fewn y Peilot, teimlai llawer fod cydweithio a dysgu rhwng cymheiriaid yn elfennau hanfodol o ran helpu ymarferwyr i feithrin hyder a dealltwriaeth mewn perthynas â'r cwricwlwm ACRh newydd.

Awgrym:

Ystyried yr ystod o ffactorau unigol, sefydliadol a diwylliannol a all ddylanwadu ar ymgysylltu ag ACRh a'r cwricwlwm yn ehangach o fewn ysgol neu leoliad. Gellid defnyddio hyn i adnabod cryfderau a meysydd posibl i'w gwella, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau posibl i ymgysylltu effeithiol ag ACRh. Un agwedd bosibl yw'r dull ysgol gyfan a deialog broffesiynol, lle mae cydweithwyr yn ymgynnull o fewn ac ar draws ysgolion i archwilio galluogwyr a rhwystrau i ymgysylltu.

¹ e.e. Harris and Graham (2019) 'Engaging with Curriculum Reform: Insights from English History Teachers' Willingness to Support Curriculum Change' in *Journal of Curriculum Studies*

Hyder

Chwaraeodd hyder arweinwyr ACRh rôl bwysig wrth lunio ymateb ysgolion i'r cwricwlwm ACRh newydd. Wrth gychwyn, roedd rhai ymarferwyr yn ansicr ac yn betrus. Roedd arweinwyr a oedd yn teimlo'n fwy petrus ar ddechrau'r Peilot yn tueddu i fod yn newydd i ACRh. Roedd y rhain yn cynnwys ymarferwyr a oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar, neu'r rhai nad oeddent wedi addysgu testunau a gwmpaswyd o fewn ACRh yn flaenorol. Roedd yr ysgolion hyn, er enghraifft, yn fwy tebygol o fynegi:

- Pwysigrwydd arweiniad a chymorth manylach i'w helpu i ddylunio a chyflwyno ACRh yn eu hysgolion neu leoliadau.
- Pryderon ynghylch sefydlu'n gadarn yr hyn sy'n briodol o ran datblygiad a'r hyn nad yw'n briodol.

I'r gwrthwyneb, roedd yr arweinwyr hynny a oedd yn fwy profiadol yn tueddu i deimlo'n fwy hyderus ynghylch y cwricwlwm ACRh newydd. Ar ben hynny, roedd yr ysgolion hynny a fynegodd eu bod yn tynnu ar ddulliau mwy cydweithredol yn tueddu i nodi lefelau uwch o hyder mewn ACRh ac ymgysylltiad ag ef hefyd. Roedd hyn yn cynnwys dod â chydweithwyr ynghyd ag uwch arweinwyr ar ddechrau'r broses i archwilio ACRh a sut y gellid ei wreiddio yn addysgu a dysgu. Roedd hyn yn awgrymu y gallai rhwydweithiau cymorth a thrafodaethau cymheiriaid fod wedi bod yn bwysig o ran rhoi sicrwydd a magu hyder ymhlith ymarferwyr.

Awgrym:

Ymddiried cynllunio a dylunio ACRh gyda staff mwy profiadol, gan gynnwys y rhai a allai fod wedi addysgu agweddau ar ACRh yn flaenorol. Os nad yw hyn yn bosibl, sicrhau bod staff llai profiadol yn cael cymorth agosach, gan gynnwys cyngor, arweiniad a hyfforddiant ehangach. Mae'r awgrym hwn yn adlewyrchu egwyddor y dull ysgol gyfan a amlinellwyd yn y [Canllawiau Statudol](#). Mae hyn yn pwysleisio rôl bwysig arweinyddiaeth wrth lywio'r weledigaeth ar gyfer ACRh, ac wrth gefnogi arweinwyr ACRh a chydweithwyr eraill i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd a chael mynediad at ddysgu proffesiynol.

Wrth feithrin hyder mewn perthynas ag ACRh, disgrifiodd rhai foment o wireddu wrth ymgysylltu ag ACRh. Roedd hyn yn aml yn canolbwyntio ar ddigwyddiad ffurfiannol fel sgwrs gysurlon gyda chydweithiwr, neu fynychu hyfforddiant a oedd wedi taflu llawer o oleuni:

Ers i ni siarad diwethaf, es i ar gwrs ACRh. Roedd yn gwrs ar-lein dros ddau ddiwrnod yn olynol ac roedd yn ddefnyddiol iawn. Roedd yn rhyngweithiol iawn ac roedd yn dangos llawer o adnoddau y gallem eu defnyddio yn yr ysgol - llawer o ffyrdd i'w defnyddio [...]. Cododd [yr hyfforddiant] rai syniadau posibl ar gyfer y dyfodol, ac yna fe wnaethom ymarfer mapio a bylchau. Defnyddiais rai o'r gweithgareddau yr oeddwn wedi'u gweld o'r cwrs, ac felly fe weithiodd hynny'n dda [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Ar draws sgysiau ag ymarferwyr, daeth sawl thema i'r amlwg a oedd yn fodd i dawelu meddwl a magu hyder mewn perthynas ag ACRh. Roedd y rhain yn cynnwys sylweddoli nad oedd maint y newid mor arwyddocaol ag a dybiwyd yn wreiddiol. O'r safbwyntiau hyn, roedd canfyddiadau cychwynnol o ACRh yn awgrymu ei fod yn cynrychioli gwyrriad sylweddol oddi wrth yr hyn a fu'n flaenorol. Unwaith yr oedd yr ymarferwyr hyn wedi dod yn fwy cyfarwydd, roeddent yn tueddu i feddwl eu bod yn teimlo eu bod eisoes wedi bod yn cynnwys llawer o'r cwricwlwm newydd. I rai, roedd yn galonogol gwybod nad oedd maint y dasg efallai mor sylweddol ag yr oeddent wedi'i dybio'n wreiddiol.

Roedd cydnabyddiaeth gynyddol hefyd ymhlith llawer o ymarferwyr bod y cwricwlwm ACRh yn adlewyrchu ethos a gweledigaeth ehangach eu hysgol, yn enwedig o ran meithrin amgylcheddau dysgu cefnogol a pharchus. Roedd hyn hefyd yn galonogol oherwydd ei fod yn dilysu'r dull yr oedd ysgolion eisoes wedi'i fabwysiadu wrth gefnogi dysgwyr, yn enwedig o ran eu llesiant ehangach.

Thema arall oedd y ddealltwriaeth nad oedden nhw ar eu pen eu hunain yn llywio'r cwricwlwm ACRh newydd. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau ag ymarferwyr mewn ysgolion eraill a ddangosodd eu bod yn wynebu cwestiynau a heriau tebyg, gan gynnwys sefydlu'r hyn sy'n briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr. At hynny, roedd y sgysiau hyn yn amhrisiadwy o ran rhannu dysg a syniadau, a dywedodd ymarferwyr y byddent yn hynod ddefnyddiol wrth ddelweddu ACRh yn ymarferol:

[Ar ôl y sesiwn hyfforddi] *Cefais gyfle i siarad â nifer o ysgolion. Roeddwn yn ei chael yn fuddiol iawn siarad â phobl eraill sydd, yn gyntaf oll, yn yr un cwch â mi, a, wyddoch chi, fe wnaethom ei archwilio gyda'n gilydd.*

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Awgrym:

Creu, cynnal a hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr ymgynnull, gan gynnwys o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau, er mwyn trafod a rhannu dysg mewn perthynas ag ACRh.

Gwybodaeth a Phrofiad

Wedi'i gysylltu'n agos â hyder, ffactor allweddol arall a ddylanwadodd ar ymgysylltiad ysgolion oedd gwybodaeth a phrofiad sylfaenol arweinwyr ACRh a staff ehangach. Roedd ymarferwyr mwy profiadol a'r rhai a oedd yn fwy cyfarwydd â'r pynciau a'r themâu a gwmpesir o fewn ACRh yn tueddu i adrodd ar gynnydd pellach neu gynt o ran cynllunio a pharatoi. Roedd hyn yn awgrymu, ar gyfer ymarferwyr llai profiadol, efallai nad oedd ganddynt y wybodaeth a'r profiad sylfaenol sydd eu hangen i ymgysylltu'n llawn â'r cwricwlwm newydd o'r cychwyn cyntaf. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt dreulio amser ar sefydlu'r sylfaen honno trwy ddarllen, hyfforddi a thrafod.

Roedd dimensiwn ychwanegol hefyd i wybodaeth a phrofiad. Nid yn unig yr oedd rhai ymarferwyr yn archwilio'r cwricwlwm ACRh newydd, roeddent hefyd yn gwneud synnwyr o'r Cwricwlwm i Gymru yn ehangach. Roedd hyn yn cynnwys dod yn gyfarwydd â rhai o'r egwyddorion addysgeg arweiniol sy'n sail i'r cwricwlwm ehangach, a'i iaith a'i strwythur. Gyda mwy o bwyslais ar ymarferwyr fel dylunwyr, nid darparwyr yn unig, y cwricwlwm yn eu hysgol neu leoliad, roedd hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i rai ymarfer sgiliau neu ddulliau newydd o feddwl am addysgu a dysgu. Roedd hyn yn awgrymu bod ymgysylltu ag ACRh hefyd yn digwydd ar yr un pryd ag archwilio ac astudio'r cwricwlwm ehangach, gan gynnwys datblygu sgiliau a deall sut i ddod yn ddylunwyr cwricwlwm effeithiol.

Awgrym:

Ystyried ymgysylltu ag ACRh o fewn archwiliad ehangach o'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer llawer o ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas nid yn unig ag ACRh ond hefyd ag egwyddorion arweiniol y cwricwlwm a'r ymagwedd at y cwricwlwm yn ehangach. Gall hyn helpu i atgyfnerthu'r sylfaen y gall ymarferwyr fynd ati i ymdrin ag ACRh.

Darpariaeth sy'n Briodol i Ddatblygiad

Maes allweddol yr oedd llawer o ysgolion yn mynd i'r afael ag ef oedd pwysigrwydd sefydlu darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad. Teimlai rhai bod y cwricwlwm ACRh newydd, gyda mwy o ffocws ar sybsidiaredd wrth gynllunio'r cwricwlwm, yn galluogi i ymarferwyr ymateb i faterion neu themâu a godwyd gan ddysgwyr. Teimlwyd bod hyn yn bwysig o ran grymuso ymarferwyr i ymateb yn fwy effeithiol i anghenion dysgwyr:

Rydym bellach mewn sefyllfa os ydynt yn barod yn ddatblygiadol, mae hefyd yn caniatáu i ni ddweud: 'lawn, wel, iawn.' Os ydym yn cael cwestiynau am atal cenhedlu, gallwn fynd i'r afael â hwy, heb fynd i ormod o fanylion, ond gallwn gael y sgwrs honno. Mae yna ychydig o ryddid i fynd ychydig ymhellach, ond os ydyn nhw'n barod amdano.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

I rai, serch hynny, roedd amrywiaeth o heriau o ran pennu a gwreiddio darpariaeth a oedd yn briodol i ddatblygiad, yn enwedig ar gyfer plant iau. O'r safbwyntiau hyn, mae amrywiaeth o ystyriaethau, gan gynnwys sut i benderfynu a yw grŵp yn barod i archwilio thema neu destun penodol. At hynny, roedd ystyriaethau ynghylch sut i ymdrin â phwnc wedyn a sut i ymdrin ag unrhyw drafodaeth neu gwestiynau dilynol gan ddysgwyr.

Canfu rhai bod penderfynu a oedd grŵp blwyddyn yn barod ar gyfer datblygiad yn heriol, o ystyried y gallai un garfan gynnwys ystod amrywiol o ddysgwyr ar wahanol gamau datblygu. Teimlwyd ei bod yn bwysig ymateb yn sensitif i amrywiaeth o'r fath, ond roedd rhai yn ansicr sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn weithred gydbwysu cynnil, gan ystyried anghenion a disgwyliadau'r dysgwyr hynny a oedd yn gofyn am, neu a oedd yn barod i ymdrin â phynciau penodol, yn ogystal ag anghenion a disgwyliadau'r dysgwyr hynny nad oeddent efallai'n barod i wneud y canlynol:

[Nid yw'r Cod ACRh drafft a'r Canllawiau Statudol] *mewn gwirionedd yn trafod perthnasoedd rhywiol [ar y lefel gynradd] tan yn ddiweddarach yng Nghyfnod Allweddol Dau. Efallai y bydd y [math] hynny o gwestiynau yn codi, fodd bynnag, a gwybod sut i ateb [nhw] heb fynd i ormod o fanylion a bod yn ymwybodol y gallai fod angen y wybodaeth hon ar rai plant a'r dosbarth [yn] anodd ei gydbwysu, gan gynnwys ymgysylltu â deunydd y gwyddoch na fyddai eraill yn barod yn ddatblygiadol [ar ei gyfer] o gwbl.*

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Roedd pwysigrwydd sicrhau darpariaeth a oedd yn briodol yn ddatblygiadol yn ffrwd allweddol a oedd yn sail i lawer o safbwyntiau ymarferwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm ACRh. Ochr yn ochr â sicrhau llesiant dysgwyr, roedd hyn hefyd o safbwynt cydbwysu a pharchu safbwyntiau rhieni a gofalwyr. Hysbysu'r safbwyntiau hyn oedd sensitifrwydd y pwnc, ac wrth feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad â chydweithwyr a rhieni/gofalwyr. Teimlwyd ei bod yn bwysig iawn cael y cydbwysedd hwn yn gywir:

Rwy'n meddwl mai un o'r rhwystrau i ni yw'r hyn y gallai staff a rhieni ei ystyried yn amhriodol. Pan fyddwch yn edrych ar yr offeryn [Golau Traffig Brook](#), nid yw'n [...]. Dylid nodi'n gliriach beth [dylem] fod yn ei gyflwyno i'r myfyrwyr, oherwydd fel arall efallai y bydd staff a theuluoedd yn teimlo y gallai fod ychydig yn amhriodol.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Ystyriwyd bod meithrin hyder a gwybodaeth am wahanol ddulliau o sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol o ran datblygiad yn allweddol, gan gynnwys drwy gymorth, trafodaeth a hyfforddiant. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig i gefnogi sgysiau gyda dysgwyr:

Rwy'n meddwl bod cael trosolwg o'r hyn rydych chi'n ei gyflwyno yn ddigon, ond hefyd i wybod eich ffeithiau mewn gwirionedd hefyd. Felly, os yw [dysgwyr] yn gofyn cwestiynau i chi am bornograffi [ym mlwyddyn chwech], sut ydym ni'n mynd i ddelio â hynny? Sut olwg fydd ar hynny? Felly, yn y bôn, rydym wedi trefnu rhywfaint o hyfforddiant staff ar sut i drafod pynciau sensitif, sut i gael y sgysiau hynny mewn man diogel gyda'r plant [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Awgrym:

Canolbwyntio hyfforddiant a chefnogaeth ar sicrhau bod cydweithwyr yn hyderus yn eu dealltwriaeth o ddarpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys strategaethau ymarferol ar gyfer sefydlu lle mae dysgwyr, a sut i lywio sgysiau ar bynciau sensitif.

Galluogwyr Ymgysylltiad

I lawer o ymarferwyr yn y Cynllun Peilot, wrth iddynt ddod yn fwy cyfarwydd â'r cwricwlwm ACRh newydd, daethant yn fwy hyderus. Mae hyn yn awgrymu bod perthnasoedd cadarnhaol rhwng hyder, gwybodaeth a phrofiad ac ymgysylltiad ymarferwyr ag ACRh. Dywedodd un ysgol a gymerodd ran, er enghraifft, ei bod yn ysgol arloesi. Mynegwyd hyder ganddynt yn eu hymwneud â'r cwricwlwm newydd, yn deillio o'r amser yr oeddent wedi'i dreulio yn archwilio'r cwricwlwm newydd a meithrin hyder, gwybodaeth a phrofiad.

Mae hyn hefyd yn amlygu pwysigrwydd rhoi amser a lle i ymarferwyr adeiladu gwybodaeth a hyder, yn enwedig cydweithwyr iau neu'r rhai sy'n newydd i ACRh:

Amser, adnoddau a hyfforddiant, ond mae angen hyder hefyd. Rwy'n meddwl ei fod [am y] math o hyder a sicrhau bod yna rywun sy'n gwbl gyfrifol sy'n goruchwyllo pethau. Mae'n rhaid i chi gael rhywun sy'n gyrru'r cyfan.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Gyda'i gilydd, tynnodd ymarferwyr sylw at ystod amrywiol o ffactorau galluogi a oedd yn eu helpu i feithrin gwybodaeth a hyder mewn perthynas ag ACRh. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Amser a lle i archwilio a deall ACRh a'r cwricwlwm newydd.
- Cefnogaeth gan gymheiriaid, gan gynnwys gan uwch arweinwyr, o fewn ac ar draws ysgolion.
- Mynediad at hyfforddiant ac adnoddau o ansawdd uchel.

Effaith COVID-19

Rhwyrstr allweddol i ymgysylltu â'r cwricwlwm ACRh newydd ymhlith ysgolion oedd yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys lliniaru a mynd i'r afael ag amhariadau i addysgu a dysgu a brofwyd cyn y Peilot, yn ogystal ag aflonyddwch pellach yn ystod y Peilot rhwng Mehefin 2021 a Chwefror 2022. Profodd ysgolion a lleoliadau, er enghraifft, absenoldebau staff sylweddol yn ystod y Peilot.

Effeithiodd yr aflonyddwch a wynebwyd gan ysgolion mewn nifer o ffyrdd. Roedd yn cyfyngu ar yr amser a oedd ar gael i staff gymryd rhan mewn cynllunio a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Ymhellach, roedd yn cyfyngu ar y mathau o weithgareddau y gallai ymarferwyr eu cyflawni a'u maint, yn enwedig y rhai y teimlwyd eu bod yn elwa o ryngweithio wyneb yn wyneb megis gyda rhieni a gofalwyr. Gyda'i gilydd, bu hyn yn cyfyngu ar y cynnydd yr hoffai llawer o ysgolion fod wedi'i wneud wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

2 Canllawiau a Chod

Yn gynnar yn y Cynllun Peilot ym mis Medi 2021, gwahoddwyd yr ysgolion a gymerodd ran i roi eu barn ar y Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft. Defnyddiwyd y mewnwelediadau hyn wedyn i lywio'r gwaith o fireinio'r dogfennau.

2.1 Sut mae'r Cod a'r Canllawiau ACRh yn cael eu Defnyddio

Gofynnwyd i'r ysgolion a gymerodd ran sut y maent yn defnyddio canllawiau i hysbysu addysgu a dysgu. Daeth dwy thema benodol i'r amlwg, gan gynnwys tynnu ar ganllawiau i lywio'r cynllunio a'r paratoi, ac fel adnodd ymarferol ar gyfer addysgu a dysgu. Ar lefel fwy strategol, mae canllawiau yn cynnig adnodd pwysig ar gyfer deall y disgwyliadau a osodir ar ysgolion:

Fel gydag unrhyw fath [o] ddeunyddiau canllaw o amgylch y cwricwlwm, fel y pennaeth, byddwn yn eu darllen i weld beth oedd ei angen arnaf o ran fy rôl fel arweinydd. Rwy'n mynd at y canllawiau i ddeall pa ofynion statudol y byddai angen i ni eu cyflawni, ac wrth feddwl am [pwy yn yr ysgol] roedd angen i mi rannu hyn â nhw. Beth sydd angen i mi fod yn ei rannu gyda fy nghorff llywodraethu hefyd? [...] Roeddwn i'n ei chael hi'n eithaf defnyddiol a bod yn onest. Rwy'n hoff iawn o'r ffaith nad yw'n hir iawn, oherwydd weithiau gall dogfennau canllaw fod mor hir fel eich bod chi'n mynd ar goll ynddyn [nhw].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio'r Canllawiau fel modd o helpu cydweithwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys rhannu'r Canllawiau a'u defnyddio fel pwynt trafod. Roedd yr union ffyrdd y bu cydweithwyr yn ymgynnull i archwilio'r cwricwlwm newydd yn niferus ac yn amrywiol, gan gynnwys drwy drefniadau mwy ffurfiol, megis trafod y goblygiadau yn ystod diwrnodau HMS, yn ogystal â thrwy drefniadau mwy anffurfiol y byddai cydweithwyr yn ymgynnull i drafod y Canllawiau rhyngddynt eu hunain:

Byddem bob amser yn ei rannu gyda'n cydweithwyr ac yn disgwyl eu bod yn gyfarwydd â'r Canllawiau. Ond mae yna gydnabyddiaeth bod llawer i'w ddeall. Os edrychwch ar draws y cwricwlwm cyfan, mae llawer o arweiniad a llawer o feysydd, felly nid yw pawb yn mynd i fod yn arbenigwr yn y maes hwnnw. Felly, rydym yn edrych ar wneud yn siŵr bod gennym ein harbenigwyr a bod gennym dîm a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am y maes hwnnw o'r cwricwlwm.

Ymarferydd, UCD

Siaradodd rhai am y Canllawiau fel dogfen fyw, un y cyfeirir ati'n barhaus. O'r safbwyntiau hyn, mae ymarferwyr unigol ac fel grŵp yn dod yn gyfarwydd â'r Canllawiau dros amser. Edrychodd ysgolion hefyd ar y Canllawiau fel adnodd ymarferol i gynhyrchu syniadau i gefnogi addysgu a dysgu. I lawer o'r ysgolion a gymerodd ran, dyma le y gellid cryfhau'r Canllawiau drafft. Amlygodd rhai ysgolion fod yr Arweiniad yn rhoi disgrifiad lefel uchel o ehangder a chynnwys ACRh; fodd bynnag, cawsant hi'n anodd delweddu sut olwg fyddai arno'n ymarferol. O'r safbwynt hwn, byddai gwell mewnwelediad ac adnoddau mewn perthynas â sut i fynd ati a chyflwyno darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad yn fuddiol:

Nid yw mor fanwl â hynny. Ni roddodd syniad i mi sut y gallem ei ddefnyddio i ddysgu rhai pethau. Efallai y byddai rhagor o syniadau o gymorth, yn enwedig wrth gysylltu gwahanol bynciau a meysydd [ar draws y cwricwlwm]. Nawr byddai hynny'n eithaf defnyddiol.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Yn dilyn yr awgrymiadau hyn, mae gwybodaeth wedi'i hychwanegu at ganllawiau 'Cynllunio eich cwricwlwm' pob Maes Dysgu ar Hwb.

2.2 Safbwyntiau ar y Canllawiau

Ar y cyfan, teimlwyd bod y Canllawiau drafft yn hygyrch ac yn ddefnyddiol o ran deall y themâu a'r pynciau o sylwedd yr ymdrinnir â hwy o fewn ACRh. Roedd hyn yn arbennig o amlwg o ran naws ac iaith y Canllawiau, a'r hyd (a oedd yn ei gwneud yn hawdd ymgysylltu). O ran deall y gofynion statudol ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, teimlwyd i raddau helaeth fod y Canllawiau yn glir ac yn effeithiol. Mynegodd rhai ei fod yn gosod sail resymegol glir ar gyfer y diwygiadau, gan gynnwys o ran sicrhau hawliau'r plentyn.

Aeth rhai ysgolion ymhellach, gan awgrymu bod yr Arweiniad yn effeithiol o ran cyfathrebu paramedrau a gofynion ACRh. Roedd y safbwyntiau hyn yn dueddol o berthyn i ymarferwyr a oedd naill ai'n fwy cyfarwydd â'r cwricwlwm newydd yn gyffredinol, wedi bod yn addysgu agweddau ar ACRh am gyfnod hwy, neu wedi adrodd eu bod wedi cael hyfforddiant ar y cwricwlwm ACRh newydd:

Roeddwn i'n meddwl ei fod yn eithaf clir beth sydd angen i ni ei wneud.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Roedd rhai meysydd yn y Canllawiau drafft y teimlai ysgolion y gellid eu cryfhau. Dywedodd llawer y gallai canllawiau manylach fod yn werthfawr wrth helpu ymarferwyr i ddelweddu ACRh yn ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys darparu diffiniadau cliriach o gysyniadau a syniadau allweddol o fewn ACRh, yn ogystal ag adnoddau ac arweiniad pellach ar sut y gellid gweithredu'r cwricwlwm ACRh newydd. O'r safbwyntiau hyn, roedd ymarferwyr weithiau'n cael trafferth gweld sut y gallai elfennau o ACRh gael eu gwreiddio'n effeithiol mewn addysgu a dysgu.

Roedd ceisiadau hefyd am fanylion pellach, mwy penodol ar faterion megis y goblygiadau diogelu sy'n ymwneud ag ACRh, gan gynnwys wrth adnabod a thrin datgeliadau. Codwyd yr ystyriaethau a'r awgrymiadau hyn gan lawer o ysgolion, ond yn enwedig gan ymarferwyr a oedd yn newydd i ACRh neu'n addysgu'n ehangach. Teimlai eraill y byddai mwy o fanylion am bolisiâu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fudd, yn benodol dolenni i enghreifftiau neu dempledi y gallai ysgolion eu defnyddio fel man cychwyn.

2.3 Safbwyntiau ar y Cod

Roedd amrywiaeth ym marn a safbwyntiau'r ysgolion a gymerodd ran mewn perthynas â'r Cod drafft. Teimlai rhai, er enghraifft, fod y dadansoddiad o ddarpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad yn werthfawr ac yn llawn gwybodaeth:

Roedd [Y Cod] yn glir pan gafodd ei rannu'n dri chategori. [Roedd yn] ddefnyddiol [i gael] oed y plant, ac nid wyf yn meddwl bod unrhyw beth nad ydym yn ei wneud yn barod, gan gynnwys addysgu'r plant iau i barchu ei gilydd.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Roedd rhai ysgolion yn croesawu'r dull cyffredinol o ymdrin â'r Cod, a oedd yn ceisio symud oddi wrth feysydd llafur a chyfarwyddiadau manwl. O'r safbwyntiau hyn, roedd darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr o amgylch ACRh yn allweddol, ac roedd y Cod yn gwreiddio hyn yn y dull gweithredu o fewn fframwaith cyffredinol y Cod:

O ran y tablau, maen nhw'n dweud wrthyhych chi beth sydd angen i chi ei wybod [...] beth sy'n berthnasol i'ch dysgwyr. Oherwydd, os oeddech yn rhy ragnodol, rwy'n meddwl eich bod yn y diwedd yn rhoi cynllun gwaith i bobl bryd hynny, ac mae hynny'n diystyru bod hwn yn rhywbeth y mae angen ei ddatblygu yn eich ysgol.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Fodd bynnag, cafwyd ceisiadau gan ysgolion eraill ynghylch mwy o ddyfnder a manylder yn y Cod. Deilliodd hyn o ddwy ystyriaeth wahanol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â gwahaniaethu rhwng darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad o fewn yr ystodau oedran a nodir yn y Cod drafft. Teimlai rhai bod yr ystodau oedran yn eithaf eang ac y gallent gwmpasu ystod amrywiol o anghenion, safbwyntiau a datblygiad dysgwyr. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith ysgolion uwchradd, lle teimlwyd y gallai ystod datblygiad dysgwyr fod yn eang, gan gynnwys o fewn ac ar draws grwpiau blwyddyn. O'r safbwyntiau hyn, gallai mwy o ddyfnder a manylder yn y Canllawiau roi cyfeiriad cliriach i ddarllenwyr ynghylch union bamedrau'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad:

Mae'n debyg bod angen bod yn fwy sicr ar sut olwg allai fod ar ddarpariaeth oed-briodol. Rwy'n teimlo y byddai mwy o fanylion fan hynny yn werthfawr.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Roedd yr ail thema'n canolbwyntio ar fwy o fanylion a fyddai'n cefnogi ysgolion i wneud cysylltiadau rhwng y Cod ac addysgu a dysgu. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyn yn darparu syniadau a dulliau gweithredu ar sut i ymgysylltu â dysgwyr mewn ffordd sy'n briodol i'w datblygiad, ac wrth nodi cyfleoedd trawsgwricwlaidd posibl:

Rwyf wedi darllen drwy'r Canllawiau yn ôl yn yr haf ac eto'r prynhawn yma nawr cyn siarad â chi. Yn sicr, mae'n ddefnyddiol darllen drwyddo ac, a bod yn gwbl onest, yr hyn sy'n ddefnyddiol i mi yw'r gridiau, sy'n rhoi syniad ichi o'r hyn y disgwylir i chi ei addysg ar ba adegau. Efallai mai'r hyn fyddai'n ddefnyddiol yw pe bai mwy o arweiniad eto ar hynny, yr adnoddau sydd ar gael y gallwch chi efallai glicio arnynt [ar ddolen i gael mynediad].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

2.4 Effaith y Peilot

Ym mis Medi 2021, cafodd y canfyddiadau hyn o'r Peilot eu bwydo'n ôl wedyn i'r Gweithgor ACRh a aeth ati i fireinio'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh. Ystyriwyd y canfyddiadau ochr yn ochr ag adborth arall a gynhyrchwyd gan yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ACRh a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2021, yn ogystal ag ymchwil ansoddol gyda grwpiau cynrychioliadol (e.e. plant a phobl ifanc). Atgyfnerthodd hyn negeseuon mewn perthynas â phwysigrwydd gwybodaeth ac adnoddau pellach a allai helpu ymarferwyr i ddelweddu ACRh yn ymarferol. Yna bu'r Gweithgor ACRh yn mireinio'r Cod a'r Canllawiau cyn iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2022.

3 Paratoi a Chynllunio

Yn ystod y Peilot, gofynnwyd i ymarferwyr rannu pa gamau yr oeddent wedi'u cymryd wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm ACRh newydd.

3.1 Cynnydd dros Gyfnod y Peilot

Roedd amrywiaeth sylweddol yn natur a graddau'r cynnydd yr oedd yr ysgolion a gymerodd ran wedi gallu ei wneud wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer cwricwlwm ACRh. Rhwng Medi 2021 a Chwefror 2022, yn fras roedd yr ysgolion a gymerodd ran wedi gallu gwneud cynnydd ar hyd continwmm, o wneud synnwyr i fynd ati i gynllunio ACRh o fewn ac ar draws y cwricwlwm.

Ffigwr 3.1: Cynnydd fel Continwmm



O ran gwneud synnwyr, roedd pob ysgol a gymerodd ran yn gallu gwneud cynnydd sylweddol. Gwneud synnwyr yw'r broses a ddefnyddir gan yr ymarferwyr i gasglu a dehongli gwybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall ac ymateb i'r cwricwlwm ACRh. Roedd hyn yn cynnwys meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder mewn perthynas ag ACRh.

Disgrifiodd ysgolion amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cefnogi gwneud synnwyr. Dywedodd pob ysgol eu bod wedi defnyddio'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh fel man cychwyn. Roedd hyn yn aml yn cymryd amser, pan fyddai ymarferwyr yn darllen ac yn ailddarllen y dogfennau er mwyn deall y cynnwys a'r dull gweithredu a argymhellir yn y cwricwlwm newydd.

Wrth gefnogi gwneud synnwyr, byddai ymarferwyr yn aml yn adrodd eu bod wedi darllen y Cod a'r Canllawiau Statudol ochr yn ochr â gwybodaeth a deunyddiau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys canllawiau fframwaith ehangach Cwricwlwm i Gymru, ac ystod o adnoddau eraill sy'n berthnasol i ACRh. Galluogodd hyn i ymarferwyr archwilio mecaneg y Cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â delweddu'r cwricwlwm ACRh newydd ar waith. At hynny, byddai ymarferwyr yn aml yn ategu archwiliad unigol o'r Canllawiau ac adnoddau â gweithgareddau eraill, megis trafod agweddau ar y Canllawiau gyda chydweithwyr, neu fanteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol.

Roedd cynnydd mewn perthynas â gwneud synnwyr hefyd wedi'i hysbysu, yn rhannol, gan weithgareddau ehangach yr oedd ysgolion wedi'u cyflawni wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn ehangach. Amlygodd rhai ysgolion eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, ailstrwythuro timau o fewn ysgolion i gydweithio tuag at gwricwlwm newydd, megis o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad. Amlygodd ysgolion hefyd weithgareddau ehangach a oedd wedi bod yn ddefnyddiol iddynt, gan gynnwys cymryd rhan mewn deialog broffesiynol a chael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol a oedd yn archwilio'r egwyddorion ehangach a'r dulliau addysgol a hyrwyddir yng nghanllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Gwelwyd bod yr ymgysylltu ehangach hwn yn werthfawr o ran datblygu dealltwriaeth fwy cyflawn o'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys sut y dylai ysgolion ymdrin ag ACRh. Mae hyn yn awgrymu bod gwneud synnwyr, i rai, yn cynnwys meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gyfanrwydd, ac nid ar gyfer ACRh ei hun yn unig.

Yn ystod y Peilot, adroddodd pob ysgol eu bod wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth archwilio a gwneud synnwyr o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a sut y gellid ei wreiddio yng nghwricwlwm ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys yr ysgolion hynny a oedd yn fwy petrus i ddechrau ac yn adrodd am fwy o bryderon neu heriau o ran ymateb i ACRh. Dros amser, wrth i ymarferwyr wneud synnwyr o'r cwricwlwm ACRh, daethant yn fwy cyfforddus a hyderus wrth ddelweddu sut y gellid ei wreiddio mewn arfer. Gyda'i gilydd, roedd y broses o wneud synnwyr yn gam cyntaf pwysig wrth osod y seiliau ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer ACRh o fewn ysgol neu leoliad.

Roedd y broses o wneud synnwyr yn cael ei llywio, yn rhannol o leiaf, gan wybodaeth a phrofiad blaenorol yr ymarferwyr eu hunain, gan gynnwys pynciau addysgu a gynhwyswyd o fewn ACRh. Lle'r oedd gan arweinwyr ACRh fwy o wybodaeth a phrofiad, roeddent yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi gwneud cynnydd cynt o ran deall ehangder a chynnwys y Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh. Dywedodd y rhai a oedd yn fwy profiadol hefyd eu bod yn gallu symud yn gynt i gynllunio ar gyfer ACRh yn ymarferol.

Fel yr amlygwyd ym Mhennod 2, roedd hyder hefyd yn chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi trawsnewidiadau o wneud synnwyr i gynllunio a pharatoi. Mewn rhai achosion, mynegodd arweinwyr ACRh eu bod eisiau sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth fanwl cyn cymryd camau penodol. Roedd hyn yn arbennig o wir wrth ddod ag eraill i mewn i drafodaethau ar ACRh, gan gynnwys cydweithwyr, rhieni/gofalwyr, a llywodraethwyr. O'r safbwyntiau hyn, roedd arweinwyr ACRh yn dymuno sicrhau bod ganddynt syniad clir yn eu meddwl o'r hyn yr oeddent eisiau ei wneud cyn ehangu'r sgwrs. Roedd hyn hefyd wedi'i ysgogi gan ymwybyddiaeth o rywfaint o sensitifrwydd ynghylch ACRh, gan gynnwys wrth sicrhau bod cydweithwyr a rhieni/gofalwyr yn ystyried ei fod yn briodol.

Cynllunio ar gyfer ACRh ar Waith

Er bod pob ysgol wedi cymryd camau breision o ran gwneud synnwyr, roedd amrywiaeth sylweddol eto yn natur a graddau'r cynnydd tuag at gynllunio. Ar ddiwedd y Peilot, roedd gan bob ysgol synnwyr clir o'r camau ymarferol y byddai angen iddynt eu cymryd wrth gynllunio ar gyfer ACRh yn eu lleoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys yr ysgolion hynny nad oedd wedi cymryd camau sylweddol y tu hwnt i wneud synnwyr. Roedd y camau yr oedd yr ysgolion hyn yn bwriadu eu cymryd y tu hwnt i'r Peilot yn cynnwys, er enghraifft, diweddarau polisi ACRh yr ysgol ac ymgysylltu â chydweithwyr a llywodraethwyr mewn perthynas ag ACRh.

Os oedd ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â chynllunio a pharatoi, roedd hyn yn cynnwys cwblhau ystod o gamau ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, ymgysylltu â dysgwyr a chydweithwyr i ddeall eu barn am ACRh. Dywedodd rhai ysgolion eu bod wedi gallu ystyried sut y gellid addasu neu gyflwyno elfennau arwahanol o ACRh i addysgu a dysgu a oedd yn adlewyrchu'r cwricwlwm newydd. Roedd rhai ysgolion wedi gallu mynd ymhellach i ystyried sut y gellid gwreiddio ACRh yn fwy rheolaidd mewn dysgu trawsgwricwlaidd. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach isod.

Ar ddiwedd y Peilot, y tuedd oedd mai'r ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd wedi datblygu fwyaf oedd y rhai gydag ymarferwyr profiadol yn arwain ACRh. Ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion, roedd cynnydd yn ystod y Peilot hefyd wedi'i oedi i raddau amrywiol oherwydd yr aflonyddwch yr oeddent wedi'i brofi o ganlyniad i bandemig COVID-19.

3.2 Ffyrdd o Weithio

Roedd ACRh yn y rhan fwyaf o achosion yn cael ei arwain gan aelod unigol o staff. Roedd amrywiaeth sylweddol yn hynafedd a phrofiad arweinwyr ACRh, o athrawon newydd gymhwyso i uwch arweinwyr. Mewn ysgolion uwchradd, roedd arweinwyr ACRh yn fwy tebygol o fod yn arbenigwyr pwnc. Mabwysiadodd un ysgol gynradd ddull ychydig yn wahanol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyfrifoldeb dros ACRh i dri aelod o staff yn benodol a fu'n archwilio'r cwricwlwm gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth agos eu pennaeth. Trwy gyfweiliadau, buont yn trafod pa mor gefnogol oedd y dull, ac yn llai tebygol o amlygu heriau, rhwystrau neu bryderon wrth ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd.

Awgrym:

Ystyried datblygu timau bach i arwain ACRh, yn enwedig o fewn ysgolion cynradd. Gallai'r tîm gynnwys aelodau â chymysgedd o wybodaeth a phrofiad. Gall hyn helpu ymarferwyr i feithrin gwybodaeth a hyder, yn ogystal â lleihau maint y dasg ar gyfer unrhyw un unigolyn.

Bu'r ysgolion a gymerodd ran hefyd yn trafod addasu neu sefydlu strwythurau a ffyrdd newydd o weithio i baratoi ar gyfer ACRh. Roedd y rhain yn cynnwys strwythurau a allai gefnogi dyluniad y cwricwlwm, ac wrth addysgu a dysgu. Roedd amrywiaeth sylweddol yn yr union dull a ddefnyddiwyd gan wahanol ysgolion. Roedd rhai ysgolion uwchradd, er enghraifft, wedi ad-drefnu timau y tu hwnt i ffiniau pynciau traddodiadol a thuag at strwythur a oedd yn adlewyrchu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Teimlwyd bod hyn yn ddefnyddiol wrth archwilio'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y cwricwlwm newydd, gan gynnwys ACRh. Ar gyfer ysgolion llai, disgrifiodd rhai gosod y seiliau, gan gynnwys sefydlu fforymau neu grwpiau ar gyfer trafod a chydweithio:

Nid oeddem yn siŵr a oeddem am greu grŵp newydd neu ddefnyddio un o'n grwpiau presennol. Felly awgrymodd y dirprwy bennaeth ein bod yn defnyddio'r grŵp cynllunio cwricwlwm, gan mai dyna oedd ei ddiben. Ac felly roedd hi'n mynd i gwrdd â mi. Rwy'n athrawes blwyddyn dau, [ac] mae hi'n athrawes blwyddyn chwech. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn dda cael cydbwysedd. Doeddwn i ddim yn gallu dyfalu beth mae plant blwyddyn chwech yn mynd i fod eisiau ei ddysgu na beth maen nhw'n mynd i'w ofyn. A byddai'n eithaf da cael dirnadaeth o'r ochr arall i bethau.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Siaradodd rhai ymarferwyr am bwysigrwydd hysbysu ffyrdd o weithio yn unigol ac ar y cyd. Roedd hyn yn cynnwys gwneud dylunio cwricwlwm yn weithgaredd mwy arferol a mwy systematig ar draws ymgysylltiad ymarferwyr ag addysgu a dysgu.

Archwiliadau Cwricwlwm

Roedd dull allweddol o gynllunio a pharatoi a godwyd gan y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys adolygiad o'r cwricwlwm ACRh newydd ac ystyried sut mae'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol. Disgrifiodd ymarferwyr gynnal archwiliadau cwricwlwm neu ymarferion mapio a bylchau. Arweinwyr ACRh oedd yn cynnal y rhain yn bennaf, ond weithiau mewn grwpiau bach. Yn aml, y Cod a'r Canllawiau Statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drafft oedd y man cychwyn, lle byddai ymarferwyr yn ystyried y dull cyffredinol ac elfennau gorfodol o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac yn ystyried sut y gallent ffitio o fewn y ddarpariaeth bresennol. Disgrifiodd ymarferwyr yn aml adnabod bylchau a oedd yn helpu i egluro pa agweddau ar addysgu a dysgu oedd angen sylw pellach neu eu cryfhau:

Dechrau deall yr hyn y mae pob ffrwd yn chwilio amdano. Beth allwch chi ei gynnwys? Roedd yna bethau yno nad oeddem byth yn ei drafod o'r blaen, pethau fel y menopos.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Bu'r mathau hyn o ymarferion hefyd yn fodd i dawelu meddwl rhai ymarferwyr, yn enwedig y rhai a oedd wedi teimlo'n betrus ar ddechrau'r Peilot. Fe wnaeth mapio'r cwricwlwm newydd helpu ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r cwricwlwm newydd. I rai, roedd mapio a bylchau yn amlygu'r gwaith yr oedd ysgolion eisoes wedi bod yn ei wneud gyda dysgwyr.

Awgrym:

Defnyddio dulliau fel archwiliadau cwricwlwm neu fapio a bylchau yn gynnar yn y broses o ymgysylltu ag ACRh. Gall hyn fod yn werthfawr wrth feithrin gwybodaeth a hyder, yn ogystal â blaenoriaethu meysydd ffocws wrth ymateb i'r cwricwlwm newydd.

Cynnwys Dysgwyr

Roedd dull allweddol arall o gynllunio a pharatoi yn cynnwys gofyn i ddysgwyr am eu barn. Disgrifiodd ymarferwyr a dynnodd ar lais y dysgwr ystod o dechnegau, gan gynnwys tynnu ar grwpiau a oedd yn bodoli eisoes, yn ogystal â sefydlu trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol gyda dysgwyr. Roedd y rhain yn aml yn canolbwyntio ar drafod yr hyn yr oedd dysgwyr eisiau ei archwilio mewn ACRh:

Ydym, rydym [wedi siarad â dysgwyr]. Rydym wedi sefydlu grwpiau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae'r rhain yn cynnwys tri dysgwr o bob grŵp blwyddyn, ac rydym wedi archwilio'r holl feysydd dysgu gwahanol (gan gynnwys ACRh). Ac yna mae gennym ni hefyd gwnselydd ysgol, felly gallen nhw gymryd syniadau o'u dosbarth ac yna dod yn ôl a rhannu [nhw] gyda ni [...]. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth feddwl am yr hyn y mae angen inni ei gynnwys.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Canfu ysgolion cynradd ac uwchradd yn gyson fod dysgwyr eisiau cymryd rhan mewn pynciau sy'n ymwneud ag ACRh:

Cefais sioc wrth wneud llais myfyrwyr o ran faint maen nhw'n ei wybod yn barod. Ac mae'n debyg y byddai hyd yn oed eu rhieni'n cael sioc gan faint maen nhw'n ei wybod hefyd. Rwy'n meddwl bod llawer iawn i'w wneud o ran uwchsgilio staff o ran hyder ac addysgu, ac yna gallu ateb rhai o'r cwestiynau heriol sy'n codi o'r deunydd.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Roedd tynnu ar leisiau dysgwyr yn werthfawr mewn nifer o agweddau. Teimlai rhai ei fod yn ddefnyddiol deall a oedd dysgwyr yn barod yn ddatblygiadol i archwilio pynciau penodol. Roedd hefyd yn werthfawr o ran deall anghenion a disgwyliadau dysgwyr, a allai lywio dyluniad y cwricwlwm mewn ysgolion. Ymhellach, roedd rhai yn ei chael yn werthfawr o ran adeiladu'r rhesymeg y tu ôl i ACRh a phwysigrwydd ymgysylltu ag ef, gyda chydweithwyr a rhieni/gofalwyr:

[Gwelsom fod] llawer o'r pethau y byddai plant yn gofyn ac eisiau gwybod amdanynt efallai na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn siarad gartref neu na fyddent yn cael cyfle i drafod gartref. Yna gallwn roi adborth i rieni i ddweud mai dyma beth mae'r plant eisiau ei ddysgu, yn hytrach na dyma beth rydyn ni'n mynd i'w ddysgu iddyn nhw [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Awgrym:

Lle bo modd, tynnu ar lais y dysgwr yn gynnar yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm newydd. Gall hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, yn ogystal ag wrth gyfathrebu â chydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr am yr ymagwedd at ACRh a fabwysiadwyd yn yr ysgol neu'r lleoliad.

Mae amrywiaeth o offer, dulliau a gwybodaeth y gallai ysgolion eu defnyddio i gefnogi eu hymgysylltiad â dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar gyfranogiad effeithiol disgyblion a gyhoeddir gan [Estyn](#). Yn ogystal, maent yn cynnwys gwybodaeth ehangach sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau a allai eu helpu i ddeall materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys y [Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgol](#), sy'n cynhyrchu ystod o wybodaeth, gan gynnwys adroddiadau ysgolion unigol, gyda'r nod o wella iechyd a llesiant dysgwyr.

Cynnwys Cydweithwyr

Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig cynnwys cydweithwyr ar draws ysgolion. Teimlai rhai bod hyn yn werthfawr, o ystyried y ffocws cynyddol ar hyrwyddo cyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd. Roedd rhai, fodd bynnag, wedi profi heriau wrth gydweithio â chydweithwyr. Roedd hyn yn aml oherwydd yr aflonyddwch a wynebwyd ganddynt ar y pryd oherwydd pandemig COVID-19.

Lle'r oedd ysgolion neu leoliadau wedi gallu ymgysylltu â chydweithwyr, dywedodd ymarferwyr eu bod wedi defnyddio ystod o dulliau ymarferol. Dosbarthwyd rhai arolygon, er enghraifft, er mwyn mesur canfyddiadau neu bryderon cydweithwyr mewn perthynas ag ACRh. Roedd ysgolion eraill wedi dosrannu rhan neu'r cyfan o ddiwrnod HMS i rannu gwybodaeth a dysgu am ACRh a thrafod goblygiadau posibl gyda chydweithwyr. Disgrifiodd llawer o ymarferwyr ddefnyddio trafodaethau mwy anffurfiol, lle byddai arweinwyr yn ateb cwestiynau neu'n datrys problemau gyda chydweithwyr.

Canfu rhai ymarferwyr eu bod yn ymateb i bryderon eu cydweithwyr. Roedd y rhain yn tueddu i adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch ACRh, gan gynnwys pwysigrwydd sicrhau darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad a pharchu dymuniadau a safbwyntiau rhieni a gofalwyr:

Mae gennym ni staff da iawn, ond, wyddoch chi, mae hyd yn oed rhai ohonyn nhw [yn] dweud, 'O, na, [!] does dim rhaid i mi ddysgu hynny, oes e?' Oherwydd eu bod yn meddwl bod hyn yn cael ei gynnwys gan un sesiwn pan fydd y nyrs yn dod i mewn. Ond nid yw hynny'n ddigon mewn gwirionedd, wyddoch chi, i'r plant [...]. Felly rwy'n meddwl mai'r prif beth mewn gwirionedd y byddwn yn ei awgrymu ar gyfer ysgol arall yw gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn cefnogi hyn.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Mae'n bosibl bod pryderon y staff ehangach wedi'u hysgogi, yn rhannol o leiaf, gan y canfyddiad bod gofyn i ymarferwyr ar draws yr ysgol gyflwyno pob agwedd ar ACRh. Mewn ysgolion a oedd wedi gallu archwilio dysgu trawsgwricwlaidd yn fwy manwl, roeddent yn tueddu i beidio ag adrodd am bryderon staff ehangach. Roedd un ysgol gynradd, er enghraifft, wedi bod yn archwilio gyda staff sut y gallai themâu cyfeillgarwch parchus ac amrywiaeth mewn strwythur teuluol a gofalu gael eu hadlewyrchu yn y llyfrau a gyflwynwyd i ddysgwyr. Gallai hyn fod wedi helpu i dawelu meddwl staff o ran y sgysiau a'r cwestiynau posibl y byddai'r deunyddiau hyn yn eu codi.

Codwyd pwysigrwydd hyder staff ehangach i ymgysylltu ag ACRh hefyd fel thema gyson gan ymarferwyr. Mae hyn yn awgrymu bod y berthynas rhwng hyder, gwybodaeth ac ymgysylltiad ag ACRh yn ymestyn y tu hwnt i'r rhai sy'n gyfrifol am arwain ACRh mewn ysgolion neu leoliadau.

Awgrym:

Tawelu meddwl cydweithwyr ehangach ar draws ysgol neu leoliad. Gallai hyn gynnwys darparu cyfleoedd i drafod neu rannu pryderon, yn ogystal â chyfleu negeseuon sy'n ceisio egluro natur a graddau eu rôl wrth ddylunio a chyflwyno ACRh, yn enwedig wrth sefydlu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm. Ar ben hynny, gall fod yn werthfawr rhoi enghreifftiau ymarferol i bob cydweithiwr o'r cysylltiadau neu'r mathau o ddeunyddiau y gellid eu harchwilio gyda dysgwyr.

Cynnwys Llywodraethwyr

Canfuwyd yn gyson bod llywodraethwyr yn gefnogol ac yn barod i helpu wrth ymateb i'r cwricwlwm newydd. Roedd rhai ysgolion, er enghraifft, wedi canfod bod rhiant llywodraethwyr yn werthfawr iawn wrth brofi syniadau ac ystyried y goblygiadau posibl i rieni a gofaluwr. Dywedodd ysgolion eraill eu bod eisiau datblygu darlun mwy cyflawn a mwy datblygedig cyn iddynt gyflwyno eu cynlluniau i llywodraethwyr.

Mae cyfraniadau llywodraethwyr i'r Peilot yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y bennod ar [Ymgysylltu â Rhieni a'r Gymuned](#).

Arweinyddiaeth Gefnogol

Wrth gefnogi ymgysylltu a chynllunio, roedd arweinyddiaeth a chymorth agos yn themâu cyson a godwyd gan ymarferwyr - a oedd yn ymhlyg ar adegau yn yr ymatebion. Roedd yn amlwg lle'r oedd uwch arweinwyr naill ai'n arweinwyr ACRh neu wedi cefnogi'r broses gynllunio'n agos, roedd yr ysgolion hyn yn fwy datblygedig yn eu ffordd o feddwl ac wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn awgrymu y gall arweinyddiaeth weithredol a chefnogol fod yn ffactor pwysig wrth feithrin hyder ac ymgysylltiad wrth ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm:

*Felly i mi, byddwn wedi disgrifio [cyfranogiad yn y Peilot] wedi glanio ar fy nesg.
Roeddwn yn gallu defnyddio rhwydwaith cymorth ehangach a oedd yn ddefnyddiol.*

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

4 Agwedd Ysgol Gyfan

Mae'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft yn cynnwys ystod o egwyddorion allweddol a ddylai fod yn sail i ddarpariaeth mewn lleoliadau ac ysgolion. Mae'r rhain yn amlinellu arfer effeithiol ynghylch ACRh, gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd i archwilio testunau a themâu, yn ogystal â phwysigrwydd agwedd ysgol gyfan.

Mae'r agwedd ysgol gyfan yn ceisio cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol da trwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion, lle mae plant a phobl ifanc yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda staff a dysgwyr eraill, a lle caiff perthnasoedd eu cryfhau. Dylai addysgu a dysgu mewn ACRh gael eu hategu gan ddull ysgol gyfan o ymdrin ag ACRh ac mae hyn yn hanfodol i gefnogi llesiant dysgwyr.

Mae hyn yn golygu cysylltu pob agwedd ar ysgol yn effeithiol, gan gynnwys y cwricwlwm, polisi, staff, amgylchedd yr ysgol, a'r gymuned, er mwyn cefnogi dysgwyr yn eu ACRh. Dylai hyn gefnogi datblygiad perthnasoedd cadarnhaol, gan alluogi i ddysgwyr ac ymarferwyr ffynnu, atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson, a darparu cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ymarferwyr a dysgwyr.

Dylai agwedd ysgol gyfan gynnwys ystyriaeth o arweinyddiaeth a pholisi mewn perthynas ag ACRh. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad yr uwch dîm arwain wrth ddatblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer ACRh, yn ogystal â dynodi arweinydd ACRh yn yr ysgol. At hynny, dylai hyn ystyried sut mae'r cwricwlwm ac addysgeg yn cefnogi ac yn llywio datblygiad y dull ehangach. Mae dysgu proffesiynol hefyd yn allweddol. Dylai'r uwch dîm arwain sicrhau bod pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol. Dylai ysgolion hefyd ystyried sut y gall eu diwylliant a'u hamgylchedd gefnogi ACRh.

Agwedd Ysgol Gyfan

Fel y mynegwyd yn yr Arweiniad, roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ymestyn neu ddatblygu agwedd ysgol gyfan at ACRh. Roedd cefnogaeth eang i bwysigrwydd cyfeiriadedd lluosog o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd wedi'i gynnwys yn y Cod, a hyrwyddo agweddau ar agwedd ysgol gyfan. Teimlai rhai ysgolion hefyd eu bod eisoes wedi ymgysylltu â'r egwyddorion allweddol hyn.

Er bod tystiolaeth helaeth i awgrymu bod yr ysgolion a gymerodd ran yn ymgysylltu â rhai o'r egwyddorion o fewn yr agwedd ysgol gyfan ac yn gweithredu arnynt, roedd hyn yn aml ymhlyg neu'n cael ei gasglu yn y modd yr oedd ymarferwyr yn trafod y gweithgareddau a'r cynllunio yr oeddent wedi'u cyflawni. Pan ofynnwyd yn benodol iddynt a oeddent wedi ystyried sut y gellid cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn agwedd ysgol gyfan, roedd rhai ysgolion yn cael trafferth dweud sut yr oeddent wedi mynd ati. Mae hyn yn awgrymu bod rhai ysgolion yn dal i feithrin eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd yn ehangach ac ACRh yn benodol. Ni ellid dweud nad oedd ysgolion yn ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ffordd a oedd yn gyson ag ethos ac egwyddorion cyffredinol yr agwedd ysgol gyfan neu'n eu hadlewyrchu; yn hytrach, mae'n bosibl nad oedd hyn yn ymwybodol. Gall fod yn

werthfawr felly ystyried sut y caiff ysgolion ac ymarferwyr eu cefnogi mewn perthynas â'r agwedd ysgol gyfan, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion a'r strategaethau ymarferol a hyrwyddir yn y cwricwlwm newydd.

Egwyddorion Ehangach

Ochr yn ochr â'r agwedd ysgol gyfan, mae'r Canllawiau hefyd yn cynnwys egwyddorion ehangach a ddylai arwain ymgysylltiad ysgolion ag ACRh. Mae'r rhain yn amlinellu, ymhlith ffactorau eraill, bwysigrwydd darpariaeth ACRh sy'n ymatebol i brofiadau byw dysgwyr ac yn eu parchu.

Yn benodol ac yn ymhlyg, roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn gefnogol ar y cyfan i'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Canllawiau. Roedd y rhai a oedd fwyaf cyfarwydd â'r Canllawiau yn aml yn gweld yr egwyddorion yn ddefnyddiol i atgoffa darllenwyr o'r materion y dylent fod yn eu hystyried wrth gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chydweithwyr a'u cefnogi, mynd ati i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm, ac addysgu a dysgu:

Mae [Yr egwyddorion] yn rhoi rhyw fath o fframwaith cysyniadol i arwain sut y dylech [chi] fynd ati. Mae'n bethau dwi'n gwybod yn barod ac mewn rhai ffyrdd yn ei wneud yn barod, ond mae'n atgof defnyddiol. Mae wedi'i osod yn glir ac yn atgyfnerthu'r pwyntiau allweddol y dylwn fod yn meddwl amdanynt.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

5 Dysgu Traws-gwricwlaidd

Ochr yn ochr ag agwedd ysgol gyfan, mae'r cwricwlwm ACRh hefyd yn ceisio cryfhau cysylltiadau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn i gydnabod bod ACRh yn faes eang, rhyngddisgyblaethol a chymhleth sy'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol. Mae hyrwyddo dysgu trawsgwricwlaidd yn ceisio cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng ACRh a'r cwricwlwm ehangach. Mae hyn yn cynnwys deall y safbwyntiau a'r dylanwadau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol, ffisegol, gwleidyddol, cymdeithasol a thechnolegol ar faterion ACRh.

Dysgu Traws-gwricwlaidd

Roedd yr ysgolion a gymerodd ran wedi gwneud cynnydd amrywiol o ran meddwl am ddysgu trawsgwricwlaidd a'r ffordd orau o fynd ati i gynllunio'r cwricwlwm. Roedd rhai ysgolion, er enghraifft, yn dal i ganfod eu traed ac yn meithrin gwybodaeth a hyder sylfaenol a fyddai'n eu galluogi i ehangu trafodaethau ynghylch hyrwyddo dysgu trawsgwricwlaidd. Mewn rhai ysgolion, roedd hyn hefyd yn rhannol o ganlyniad i'r tarfu ar addysgu a dysgu a achoswyd gan bandemig COVID-19.

Disgrifiodd y rhai a oedd wedi archwilio sut y gallai ACRh gysylltu ag agweddau eraill ar y cwricwlwm newydd ymgymryd ag ystod o weithgareddau. Roedd rhai yn dal i fod yn y camau cynnar o ystyried y peth. Soniodd eraill am fod yng nghamau cynnar y drafodaeth gyda chydweithwyr o ran sut i wneud cysylltiadau ar draws y cwricwlwm:

Felly, ydym, rydym wedi ceisio edrych ar y gwahanol ffrydiau a sut y gallem eu cysylltu â gweithgaredd arall. Felly rydyn ni'n edrych ar hawliau mis nesaf ac yn meddwl ac yn trafod sut mae hawliau'r plentyn a'r ffrydiau gwahanol yn cysylltu'r ffordd honno, ac yna'n cysylltu â phynciau eraill hefyd.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Ailadrodd ac Ystyried

I'r rhai a oedd wedi gallu archwilio cysylltiadau'n fanylach, roedd yr ysgolion hyn yn aml yn disgrifio proses o ailadrodd ac ystyried. Roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ffrwd neu destun ACRh penodol ac yna archwilio cysylltiadau posibl ar draws y cwricwlwm. Disgrifiodd rhai, er enghraifft, archwilio'r llyfrau a oedd yn rhan o lythrennedd i weld a allent gynnwys straeon gyda chast mwy amrywiol o gymeriadau neu gyda naratif yn archwilio materion neu themâu sy'n berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (fel bod yn ffrind cefnogol a llawn dealltwriaeth). Ar gyfer plant hŷn, canolbwyntiodd rhai ymarferwyr ar gysylltiadau mwy amlwg rhwng ACRh a phynciau eraill, fel bioleg, i weld a oedd meysydd y gellid eu cryfhau:

Rydym newydd fod yn edrych ar wneud pethau ychydig yn dynnach [...]. Felly, er enghraifft, wyddoch chi, rydyn ni'n trafod y corff dynol mewn gwyddoniaeth ac yn y blaen. Felly dim ond ymestyn hynny gyda chyflwyniad sy'n briodol i oedran i atgynhyrchu, pethau felly.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Wrth ymestyn y broses o ailadrodd ac ystyried, disgrifiodd rhai ddull eang o gynllunio'r cwricwlwm a oedd yn cynnwys treialu elfennau neu agweddau i weld a oeddent yn gweithio:

Rydym yn dueddol o fod yn ystyriol iawn. Rydyn ni'n hoffi treialu pethau naill ai gydag un dosbarth neu grŵp blwyddyn efallai neu dim ond cwpl o athrawon ar y tîm, ac yna meddwl o ddifri sut aeth pethau a'i addasu ychydig efallai ac yna rhoi cynnig arall arni [..].

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Meithrin Cyd-ddealltwriaeth

Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ynghylch gweithredu addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd yn ymarferol. Deilliodd y rhain o'r ddealltwriaeth efallai nad oedd gan rai cydweithwyr yr hyder na'r sgiliau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn pynciau a allai fod yn sensitif:

Rwy'n meddwl bod staff yn eithaf gwylidwrus o [addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd]. Rwy'n meddwl eu bod yn eithaf nerfus bron â chael y sgysiau hyn gyda myfyrwyr heb unrhyw fath o hyfforddiant ffurfiol na thrafodaeth. Mae'n ymwneud â gwybod ble mae'r ffin honno [rhwng yr hyn sy'n briodol]. Mae hyn oherwydd ei fod yn beth mor sensitif.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

O'r safbwyntiau hyn, roedd ysgolion yn tueddu i amlygu pwysigrwydd mwy o fanylion yn y Canllawiau, gan gynnwys o ran yr hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad. At hynny, codwyd pwysigrwydd hyfforddiant a chymorth ehangach i ategu arfer effeithiol o amgylch addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd.

Ochr yn ochr ag arweinwyr ACRh, roedd ymarferwyr hefyd yn cydnabod pwysigrwydd meithrin hyder, gwybodaeth a phrofiad ymhlith cydweithwyr ar draws ysgol neu leoliad. O'r safbwyntiau hyn, roedd ymarferwyr yn deall y byddai ystod ehangach o gydweithwyr yn ymwneud â chyflwyno ACRh. Teimlai rhai bod cefnogi cydweithwyr yn bwysig, yn enwedig y rhai llai cyfarwydd â'r pynciau dan sylw:

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn meddwl yr un ffordd ag yr oeddwn i ar y dechrau. Roeddent braidd yn ofalus ac ychydig yn nerfus ohono, ond gobeithio ar ôl yr holl sgysiau eu bod yn teimlo ychydig yn fwy cadarnhaol yn ei gylch. Rydym yn dîm da ar y cyfan a lle'r oedd rhai pobl yn teimlo ychydig yn nerfus neu'n brin o wybodaeth mewn rhai meysydd, dywedodd pobl eraill 'Wel, gallwch chi ddod o hyd iddo yma' neu 'Gallaf eich helpu'. Felly roedd yn dipyn o gydweithrediad.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Awgrym:

Ystyried ymestyn cymorth i gydweithwyr ehangach i'w helpu i ymgysylltu â dysgu trawsgwricwlaidd ac ACRh. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn deialog broffesiynol a chynnig cyfleoedd datblygu sy'n meithrin gwybodaeth a hyder. Gallai ffocws y cymorth hwn gynnwys darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad, a phwysigrwydd egwyddorion megis cynwysoldeb ac amrywiaeth yn y ddarpariaeth.

6 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu

Bu'r ysgolion a gymerodd ran hefyd yn ystyried goblygiadau'r cwricwlwm ACRh newydd ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae'n iawn Peidio â Chael Yr Holl Atebion

Thema a gododd dro ar ôl tro ar draws rhai ysgolion oedd y ddealltwriaeth ei bod yn iawn peidio â chael yr holl atebion. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio a dylunio'r cwricwlwm, ond hefyd wrth ymateb i gwestiynau posibl gan ddysgwyr. Roedd yn amlwg bod rhai wedi gosod disgwyliadau a phwysau sylweddol arnynt eu hunain i wneud pethau'n iawn. Roedd y rhai a oedd wedi dod i ddeall, mewn gwirionedd, os yw dysgwr yn gofyn cwestiwn anodd neu sensitif, ei bod yn iawn dweud 'Ga'i ddod yn ôl atat ar hynny?' Bod hynny wedi tawel eu meddwl:

Ac ni allwn ddyfalu beth mae pob disgybl yn mynd i ofyn, felly wnaethom sôn ei fod yn iawn i fod yn ddryslyd a hefyd i adael i'r disgyblion wybod 'Dydw i ddim yn siŵr [o'r] ateb ar hyn o bryd' neu 'Bydd angen i mi edrych ar hynny a rhoi gwybod iti'. Os nad yw'n briodol rhannu yn yr ysgolion, yna mae angen i ni ddweud hynny wrthynt [...]. Ond trwy ddweud nad oes gennym yr atebion i gyd, bydd yn helpu [cydweithwyr] trwy liniaru'r pwysau hwnnw [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Sicrhau Agwedd Gyson

Tynnodd eraill sylw at bwysigrwydd datblygu dull cyson o drafod materion a phynciau o fewn ysgolion. Byddai hyn yn cefnogi negeseuon mwy cyson ac agwedd fwy cyson mewn perthynas ag ACRh, yn ogystal â chefnogi agwedd ysgol gyfan yn llwyr:

Yn ein hysgol ni, rydyn ni'n gwneud yr agwedd ganolog. Rwy'n gwybod bod llawer o ysgolion yn gwneud nawr. Felly mae gennym ni fath o sgript pan rydyn ni'n wynebu ymddygiad anodd. Mae athrawon bob amser yn delio â phethau mewn ffordd debyg iawn. Felly, os ydym yn ymdrin ag ACRh mewn ffordd debyg hefyd, rwy'n meddwl y bydd yn helpu i roi sicrwydd i ddisgyblion bod yr athrawon i gyd ar yr un donfedd. Gobeithio ei fod yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel hefyd pan maen nhw'n trafod pethau fel hyn.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

7 Ymgysylltu â Rhieni a'r Gymuned

Gwahoddwyd yr ysgolion a gymerodd ran i rannu eu barn ar ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach mewn perthynas ag ACRh.

Cydnabod Pwysigrwydd Ymgysylltu â Rhieni a Gofalwyr

Soniodd rhai am bwysigrwydd ymgysylltu â rhieni a gofalwyr mewn perthynas ag ACRh. Roedd hyn yn cynnwys nid yn unig sicrhau bod y ddarpariaeth yn sensitif i'w safbwyntiau, ond hefyd wrth gefnogi deialog mwy agored gartref ynghylch rhai o'r themâu a'r pynciau sy'n rhan o fewn ACRh:

Rwyf eisiau agor y sgysiau hynny gartref hefyd, felly os ydych chi'n gwybod y byddwn yn rhoi sylw i rywbeth y tymor hwn - rydym yn mynd i fod yn edrych ar y glasoed, er enghraifft - yna gall y sgysiau hynny ddigwydd gartref wedyn. Ac rwy'n meddwl weithiau bod rhieni ychydig yn bryderus ynghylch sut i drafod y pynciau hynny. Felly efallai ei bod hi'n ffordd haws i agor trafodaeth iddyn nhw hefyd, o bosib?

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Pryderon ynghylch Barn Rhieni a Gofalwyr

Roedd llawer o'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion, serch hynny yn ymwneud yn bennaf â safbwyntiau rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau bod darpariaeth yn sensitif i'w safbwyntiau, eu gwerthoedd a'u credoau. Roedd ysgolion yn aml yn siarad am bwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth a pherthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr. Roedd gwneud pethau'n iawn wrth ymgysylltu â dysgwyr mewn perthynas ag ACRh yn bwysig, o ran cynnal yr ymddiriedaeth honno ac o ran sicrhau cefnogaeth rhieni a gofalwyr:

Mae gennym ni berthynas eithaf da gyda'n rhieni ac mae llawer o ymddiriedaeth, sy'n neis iawn, iawn. Ond mae'n rhywbeth rydyn ni wedi gorfod gweithio arno ers nifer o flynyddoedd. Yn aml iawn, mae gwneud pethau [...] wyneb yn wyneb a chael y berthynas bersonol honno yn wirioneddol bwysig. Felly fe wnaethom gymryd yr amser i esbonio, ac ymatebodd rhieni yn gadarnhaol iawn i hynny.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Roedd pryderon, fodd bynnag, bod canfyddiadau rhai rhieni a gofalwyr o ACRh yn negyddol, a allai o bosibl danseilio ymddiriedaeth:

Oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn Lloegr ac o ran rhywfaint o'r cyfryngau cymdeithasol a'r wybodaeth i'r wasg a ddaeth i'r amlwg ar y pryd ynghylch y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arfaethedig, rwy'n meddwl bod staff yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o orfod ymdrin â rhai materion dadleuol.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Siaradodd un ysgol am werth darpariaeth annibynnol o ran pynciau fel iechyd rhywiol a glasoed mewn ysgolion, gan fod hyn yn creu gwahaniaeth clir ym meddyliau rhieni. O'r safbwyntiau hyn, roedd darparwyr allanol y gellid ymddiried ynddynt fel nyrsys cymunedol yn werthfawr o ran creu gwahaniad wrth ddarparu ACRh. Fe wnaethant helpu i feithrin ymddiriedaeth ymhlith rhieni a gofalwyr, gan gynnwys cyfathrebu bod y ddarpariaeth yn briodol o ran datblygiad. Roedd pwysigrwydd cael pethau'n iawn a chynnal ymddiriedaeth gyda rhieni a gofalwyr yn sail i ddarllen ac ymgysylltiad llawer o ysgolion o'r cwricwlwm ACRh newydd:

Rwy'n meddwl bod pryderon yn parhau, ac mae staff yn dod ataf gyda'r pryderon hynny, ond yn gyfan gwbl o bwynt pryder o adlach rhieni lawer o'r amser. Rydyn ni wedi gwneud llawer wrth archwilio [sut i addysgu pynciau fel] caniatâd a chyffyrddiad diogel [...]. Rwy'n gwybod bod rhai rhieni wedi gwneud sylwadau ac wedi ysgrifennu yn ôl ac eisiau gwybod yn union beth sy'n digwydd a beth sy'n cael ei gynnig.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Roedd amrywiaeth sylweddol hefyd yn y graddau yr oedd gwahanol gymunedau ysgol yn ystyried y materion hyn. Er bod pob ysgol wedi codi'r materion hyn i raddau, roedd y rhai â chymunedau ysgol mwy amrywiol a rhai o natur grefyddol yn tueddu i fod yn fwy tebygol o amlygu bod safbwyntiau rhieni a gofalwyr yn flaenllaw yn eu meddyliau:

Ac felly nid ydym wedi cael unrhyw broblemau gyda rhieni na llywodraethwyr na dim byd felly. Ond, ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol o'r gwahaniaethau diwylliannol a phethau felly. Felly dwi'n meddwl mai dim ond gwneud yn siŵr ein bod ni'n ei ddysgu'n gywir.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Pryderon gan Rieni a Gofalwyr

Pan aethpwyd at ysgolion neu leoliadau gyda phryderon, roedd y rhain yn tueddu i fod yn ynysig a gan nifer fach o rieni neu ofalwyr. Roedd hyn weithiau er mwyn canfod mwy o wybodaeth am y cwricwlwm newydd a sut y byddai'r ysgol yn ymdrin ag ACRh.

Yr ydym wedi cael. Rwy'n meddwl bod un rhiant wedi cysylltu â ni oherwydd ei bod wedi clywed bod y Cod a'r Canllawiau newydd [yn] dod i rym ac roedd hi eisiau gwybod mwy amdany'n [nhw] a dweud y gwir. Felly yr oedd o safbwynt gwybodaeth [i] weld yn fwy na dim arall. Roedd mewn cysylltiad ag un o'n penaethiaid cynorthwyol ac roedd yn hapus gyda'r wybodaeth oedd ganddi.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Lle'r oedd ysgolion neu leoliadau'n derbyn pryderon mwy sylweddol gan rieni neu ofalwyr, roedd y rhain yn tueddu i fod wedi'u cyfyngu i un neu ddau o rieni neu ofalwyr. At hynny, amlygodd rhai eu bod yn deall bod rhai pryderon ymhlith rhieni a gofalwyr yn cael eu hysgogi'n rhannol gan wybodaeth anghywir ymddangosiadol neu gamddealltwriaeth ynghylch natur a bwriad ACRh. Daeth un ysgol, er enghraifft, yn ymwybodol o riant neu ofalwr a oedd wedi mynychu rali a lledaenu gwybodaeth anghywir wedi hynny ymhlith rhieni a

gofalwyr eraill. Roeddent yn gallu chwalu'r ofnau hyn trwy ymgysylltu a chyfathrebu uniongyrchol. At hynny, roedd rhai'n cydnabod bod ysgolion yn llywio ACRh yng nghyd-destun dadl a thrafodaeth ehangach:

Deallwn y gall fod gwrthwynebiadau posibl gan grwpiau ffydd. Ond mae yna hefyd grwpiau allanol eraill sydd heb ddim i'w wneud â'r ysgol ac a fyddai'n gwrthwynebu [...]. Mae'n nhw'n dueddol o feddwl mai pornograffi a phedoffilia yw'r cyfan a phethau felly [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhieni a Gofalwyr

Disgrifiodd ysgolion eu bod yn ymgymryd neu'n bwriadu ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Awgrymodd rhai eu bod wedi profi rhwystrau i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr oherwydd y pandemig COVID-19, a oedd wedi cyfyngu ar gyfleoedd arferol ar gyfer deialog, yn enwedig mewn lleoliadau mwy anffurfiol neu mewn nosweithiau rhieni. Teimlai rhai eu bod eisiau datblygu eu cynlluniau ymhellach cyn rhannu gyda rhieni a gofalwyr:

Nid wyf yn siŵr a ydym wedi cael unrhyw bryderon hyd yn hyn. Nid ydym wedi siarad â'r rhieni gyda'i gilydd eto, a bod hynny i gyd yn gynllun yn nhymor yr haf pan fydd fwy o drefn ar y rhaglen, fel y gallwn ddangos go iawn i'r rhieni beth fydd eu plant yn ei astudio.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Profi Canfyddiadau

O'r rhai a ymgysylltodd â rhieni a gofalwyr, roedd hyn yn aml yn canolbwyntio ar ddeall safbwyntiau grŵp bach o rieni neu ofalwyr wrth gefnogi cynllunio a dylunio'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys dod â rhieni a gofalwyr ynghyd i drafod syniadau, archwilio unrhyw bryderon, a chasglu awgrymiadau ar sut y gellid cryfhau'r cwricwlwm, megis sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysol.

[Gwahoddwyd] rhieni plant o gefndiroedd gwahanol a oedd yn awyddus i drafod cynwysoldeb. Trafodwyd y Cod newydd a buom yn siarad am ein gweledigaeth fel ysgol. Roeddwn wedi casglu rhestr o lyfrau a fyddai wedi bod yn addas ar gyfer ACRh ac aethom drwyddynt gyda'n gilydd. Fe wnaethom rannu rhai syniadau a gwnaethant rai awgrymiadau ar sut roedden nhw'n teimlo [...] gellid cynnwys [...] eu plant. Felly rydyn ni wedi penderfynu nawr i ffurfio gweithgor bach gyda rhieni [...]. Roedden nhw'n teimlo'n dawel eu meddwl unwaith i ni fynd trwy bopeth a dangos iddyn nhw ein hamcanion ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddefnyddiol iawn dod â nhw i mewn oherwydd, yn amlwg, mae ganddyn nhw syniadau efallai na fydden ni wedi'u hystyried.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Wedi'i gysylltu'n agos â chynnwys rhieni a gofalwyr wrth ddylunio'r cwricwlwm, tynnodd ymarferwyr sylw hefyd at werth profi canfyddiadau gyda grwpiau bach. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod ymateb yr ysgol neu'r lleoliad i'r cwricwlwm newydd yn sensitif i'w dymuniadau a'u pryderon. Roedd hyn yn cynnwys ymgymryd ag ystod o weithgareddau a gynlluniwyd i ddeall a oedd yr ysgol neu'r lleoliad ar y trywydd iawn:

Mae'n hanfodol cael rhieni i gymryd rhan, ac i ymgysylltu â'r gymuned a chanfod beth all fod yn bryderon rhieni a mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Rydw i wedi gwneud hynny trwy holiaduron yn ddiweddar ac mae'r adborth yn eithaf diddorol [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Defnyddiwyd fforymau hefyd i archwilio'r cwricwlwm ACRh newydd gyda rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn fuddiol o ran mesur canfyddiadau, archwilio a oedd unrhyw bryderon sylweddol, a chyfathrebu cynlluniau mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd:

Fe wnaethom hefyd ychydig o ymchwil gyda [rhieni a gofalwyr] hefyd trwy fforwm. Roedd gennym ni syniad i ble roedden ni'n mynd i fynd [ynghylch y cwricwlwm ACRh newydd]. Buon ni'n trafod y peth. Aethom i'r afael ag unrhyw bryderon a chwestiynau hyd eithaf ein gallu. Ac yna fe wnaethon nhw roi rhai pethau i ni eu hystyried hefyd.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Soniodd rhai ysgolion hefyd am werth tynnu ar rieni-lywodraethwyr trwy gyfarfodydd llywodraethwyr ffurfiol a thrafodaethau anffurfiol. Yn fwy na hynny, fe wnaethant ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i farn a phryderon posibl rhieni a gofalwyr yn ehangach. Roedd hyn yn werthfawr o ran datblygu'r naratif ynghylch ACRh y gellid ei gyfleu i rieni a gofalwyr a thrafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Awgrym:

Ymgysylltu â grŵp bach o rieni a gofalwyr er mwyn deall eu safbwyntiau tuag at ACRh. Gallai hyn gynnwys ymgysylltu'n gynnar yn y broses gynllunio i sicrhau bod dyluniad a chyfathrebu'r cwricwlwm yn adlewyrchu ac yn ymateb i safbwyntiau rhieni a gofalwyr.

[Tynnu ar Unigolion Allweddol](#)

Amlygodd rhai ysgolion eu bod wedi ymgysylltu ag unigolion allweddol o fewn cymuned yr ysgol i gefnogi ymgysylltu a chyfathrebu. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni a gofalwyr penodol a oedd yn gallu cefnogi'r ysgol i archwilio ACRh a chyfathrebu â rhieni a gofalwyr eraill. Trafododd eraill pa mor ddefnyddiol oedd rhiant lywodraethwyr, neu ffigurau cymunedol allweddol fel arweinwyr ffydd, o ran deall ac ymateb i bryderon posibl yn yr ysgol a'r gymuned ehangach:

Mae un o'n llywodraethwyr eraill yn uchel yn un o'r eglwysi lleol ac maen nhw'n gwneud llawer iawn i'r ardal a'r gymuned. Pan nad oeddem yn siŵr a fyddem yn wynebu unrhyw wrthwynebiad yno, [...] fe wnaethom ei archwilio gyda [nhw] ac ni fu unrhyw wrthwynebiad. Ac mae llywodraethwyr eraill yn gefnogol iawn, iawn, gan gynnwys wrth archwilio pynciau fel rhywedd a thrais ar sail rhywedd [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Pan wnaethom [ymgysylltu] â rhieni, gwnaethom yn siŵr bod gennym ni riant lywodraethwyr yno hefyd, felly gallai'r rhiant lywodraethwyr [...] adrodd yn ôl yr hyn y maent wedi'i wneud wrth ddatblygu'r cwricwlwm [ACRh].

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Awgrym:

Mynd at unigolion o fewn cymuned yr ysgol, gan gynnwys rhieni/gofalwyr gweithgar, riant lywodraethwyr, ac aelodau o'r gymuned. Gallant fod yn werthfawr wrth ystyried barn rhieni a gofalwyr, ac wrth gyfathrebu â nhw ynghylch ACRh.

Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhieni a Gofalwyr

Wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr, roedd rhai ysgolion yn ei chael yn werthfawr rhannu enghreifftiau ymarferol o'r pynciau y byddai dysgwyr yn eu harchwilio. Roedd hyn yn cynnwys rhannu deunyddiau neu lyfrau enghreifftiol, neu'r mathau o sgysiau y byddent yn eu cael gyda dysgwyr. Bu hyn yn fodd i godi ymwybyddiaeth a chwalu rhai camsyniadau, yn enwedig ymhlith rhieni a gofalwyr dysgwyr iau:

[Gyda rhieni a gofalwyr] codais [...] beth yw perthynas a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys sut y byddwn yn trafod gyda disgyblion [hynny] nad oes gan bob teulu 2.4 o blant. Felly buom yn trafod yr hyn sy'n ffurfio teulu, [fel sut y gallai plentyn] fod â rhiant maeth, [...] gallai fod â dwy fam, [...] gallai fod â dau dad, [...] gallai fod â mam-gu a thad-cu. Rwyf wedi siarad am y goblygiadau yn y sgysiau hynny y byddech yn eu cael gyda'u plant a sut y byddem yn defnyddio llyfrau ar draws yr ysgol i gefnogi dysgu mewn gwirionedd. Ac roedd [rhieni a gofalwyr] yn gwbl hapus â hynny [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Trafododd eraill bwysigrwydd cyfleu pam ei bod yn bwysig i ddysgwyr archwilio themâu a materion o fewn ACRh. Roedd hyn yn cynnwys cyfleu'r rhesymeg y tu ôl i ACRh, gan gynnwys o ran grymuso ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Teimlai rhai hefyd ei bod yn bwysig dweud nad oedd y dull gweithredu yn ceisio hyrwyddo na dilysu safbwynt penodol megis anlladrwydd rhywiol; yn hytrach, roedd yn ceisio datblygu dealltwriaeth a pharch:

Rwy'n meddwl eich bod chi wir angen y ddeialog honno ar gyfer [rhieni a gofalwyr] i ddeall na [...] fyddwn ni'n dweud wrthyn nhw am ryw ac, wyddoch chi, ei fod yn iawn ac ewch i roi cynnig arni. Ond rydyn ni'n mynd i fod yn eu haddysgu am y wyddoniaeth y tu ôl i hynny i'w helpu i wneud dewisiadau mwy gwybodus a hyderus.

Ymarferydd, Ysgol Uwchradd

Teimlai rhai hefyd ei bod hefyd yn bwysig mynd i'r afael yn uniongyrchol ag unrhyw gamsyniadau ynghylch ACRh:

Mae rhai wedi clywed ei fod yn ymwneud â phlant o dair oed hyd at 16. Maen nhw'n cymryd mai'r math yma o beth safonedig rhywsut y bydd plant mor ifanc â thair oed yn cael trafodaethau amhriodol. Roedd yn allweddol dangos i rieni a gofalwyr nad yw hyn yn wir.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr, canfu rhai ysgolion a oedd wedi ymgysylltu â dysgwyr am eu barn fod cyfleu'r canlyniadau yn galonogol ac yn helpu i feithrin cymorth:

Pan wnaethom siarad â disgyblion, cawsom dipyn o syndod yn cyfleu hynny yn ôl i lywodraethwyr neu rieni wrth ddweud: 'A dweud y gwir, [...] wyddoch chi, mae'r phynciau hyn yn bethau y mae disgyblion eisiau eu harchwilio.' Rydym wedi darganfod bod hynny mewn gwirionedd yn neges eithaf pwerus i rieni bod hyn yn cael ei yrru gan ddisgyblion hefyd.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Ochr yn ochr â'r negeseuon a oedd yn atseinio gyda rhieni a gofalwyr, disgrifiodd ymarferwyr hefyd y ffyrdd yr oeddent yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys ystod amrywiol o ddulliau, gan gynnwys trwy ddosbarthu negeseuon e-bost, trafodaethau mwy anffurfiol, a nosweithiau rhieni. Soniodd rhai ysgolion am ffyrdd creadigol o gyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Cyn y pandemig COVID-19, er enghraifft, mewn un ysgol gynradd, roedd dysgwyr yn llwyfannu drama yn archwilio rhai o'r themâu a'r materion a drafodwyd mewn ACRh mewn noson rieni. Roedd hyn yn ddefnyddiol o ran tawelu meddwl rhieni a gofalwyr ynghylch sut roedd yr ysgol yn ymdrin â rhai o'r themâu a drafodwyd yn yr ystafell ddosbarth.

Agwedd a godwyd yn y Peilot fu pwysigrwydd deialog gyda rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyfleoedd i rieni a gofalwyr ofyn cwestiynau i ymarferwyr a thrafod unrhyw bryderon. Adlewyrchir hyn mewn ymchwil ehangach ar ymgysylltiad rhieni a gofalwyr mewn perthynas â phynciau yr ymdrinnir â hwy o fewn ACRh. Lle mae gan rieni a gofalwyr ddealltwriaeth well o ddiben a chynnwys ACRh, a lle rhoddir cyfleoedd iddynt drafod eu pryderon, maent yn tueddu i fod yn fwy cefnogol.

Awgrym:

Wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, i archwilio unrhyw feddyliau a phryderon gyda grŵp bach cyn cyfathrebu'n ehangach. Gall hyn fod yn werthfawr o ran deall ac ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon. Ar ben hynny, gall fod yn werthfawr darparu enghreifftiau ymarferol o'r deunyddiau a'r pynciau y bydd dysgwyr yn ymdrin â nhw yn yr ystafell ddosbarth. Os yn bosibl, gall fod yn bwysig hefyd darparu cyfleoedd i rieni a gofalwyr archwilio a gofyn cwestiynau am ACRh gydag ymarferwyr. Mae'r awgrym hwn yn cysylltu'n agos â'r egwyddor o ymgysylltu â dysgwyr, rhieni/gofalwyr, a'r gymuned ehangach, a gynhwysir yn [Canllawiau Statudol ACRh](#).

8 Adnoddau a Chefnogaeth

Gofynnwyd hefyd i'r ysgolion a gymerodd ran am yr adnoddau a'r cymorth a oedd yn ddefnyddiol i ymarferwyr wrth archwilio ACRh.

Dysgu Rhwng Cymheiriaid

Thema allweddol oedd y cyfle i drafod a rhannu dysgu gyda chydweithwyr, gan gynnwys o fewn ac ar draws ysgolion. Disgrifiodd ymarferwyr ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol rhwng cymheiriaid. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau yn ystod digwyddiadau hyfforddi a oedd yn cynnig cyfleoedd i fynychwyr rannu eu profiadau a'u syniadau ag eraill. Roedd dysgu rhwng cymheiriaid weithiau'n deillio o ddull mwy strwythuredig o gynllunio ochr yn ochr â chydweithwyr:

Rwy'n meddwl bod amser yn hynod bwysig. Roedd yn werthfawr bod [fy nghydweithiwr] a minnau'n treulio llawer o amser nid yn ysgrifennu, ond yn siarad ac yn trafod gwahanol bethau. Ac yr oedd hynny yn rhan mor bwysig i gael rhywun arall i rannu syniadau.

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Disgrifiodd ymarferwyr hefyd sgysiau mwy anffurfiol fel rhai gwerthfawr, gan gynnwys y cyfle i ymarferwyr ofyn cwestiynau i gydweithwyr eraill, sy'n aml yn fwy profiadol, neu am gyngor ganddynt. Siaradodd eraill am estyn allan at gydweithwyr mewn ysgolion eraill i drafod agweddau ar ACRh, rhannu syniadau, neu ddatrys problemau.

Siaradodd yr arweinwyr hefyd am y rôl bwysig oedd ganddynt o ran lledaenu gwybodaeth a dysgu yn eu hysgol neu leoliad. Roedd hyn yn cynnwys ateb cwestiynau gan gydweithwyr, a chyflwyno amlinelliadau o'r cwricwlwm newydd yn ystod diwrnodau HMS neu mewn fforymau eraill. Gyda'i gilydd, roedd dysgu rhwng cymheiriaid yn agwedd bwysig ar y cymorth a'r adnoddau ehangach a gafodd ymarferwyr yn ystod y Peilot.

Deunyddiau ac Adnoddau

Siaradodd ymarferwyr hefyd am bwysigrwydd deunyddiau ac adnoddau ymarferol. Roedd adnoddau'n bwynt trafod gwerthfawr i ymarferwyr, gan gynnwys wrth iddynt archwilio sut i fynd ati i addysgu a dysgu, ac wrth ateb unrhyw gwestiynau gan ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys tynnu nid yn unig ar y Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft fel pwynt trafod, ond hefyd ar adnoddau mwy ymarferol fel llyfrau stori y gellid eu defnyddio mewn addysgu a dysgu:

Rydyn ni wedi prynu llwyth o lyfrau, yn bennaf fel man i gychwyn sgwrs mewn gwirionedd [gyda staff]. Dim ond i ysgogi sgwrs a chwestiynau y maent am eu gofyn oedd hyn. Ac felly aethom i wefan [sefydliad allanol] ac roedd llawer o awgrymiadau [am] wahanol lyfrau. Ac wedyn rydyn ni wedi ceisio cael [y sefydliad allanol] i wneud gweithdai gyda'r staff a'r plant, a dydyn ni jyst ddim wedi cael yr amser [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Y tu hwnt i lyfrau, disgrifiodd ymarferwyr hefyd dynnu ar ystod amrywiol o ddeunyddiau ac adnoddau, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd gan sefydliadau allanol. Roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch graddau a defnyddioldeb yr adnoddau hyn. Teimlai rhai, er enghraifft, ei bod yn anodd dod o hyd i adnoddau a allai fod yn berthnasol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn y ddarpariaeth o adnoddau Cymraeg. Teimlai eraill fod yna ormod bron, a'i bod yn anodd dirnad pa un i'w ddefnyddio mewn addysgu a dysgu.

Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol

Ochr yn ochr â deunyddiau, roedd datblygiad proffesiynol hefyd yn elfen bwysig iawn i ymarferwyr. Amlygodd rhai eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig mesur hyder a gwybodaeth ar draws yr ysgol a gweld a ellid mynd i'r afael â nhw trwy ddarpariaeth neu gyfleoedd hyfforddi penodol:

Dechreuom drwy rannu'r [Cod a Chanllawiau Statudol ACRh drafft] yn gryno gyda'r staff, ac yna [yn] y cam nesaf o gyfarfodydd, rydym yn mynd i'w harchwilio [nhw] yn fanylach. Yna ymgynghori ychydig i weld a oes unrhyw elfennau y credwn y dylai plant fod yn eu cwmpasu, a'r hyn y gallai fod ei angen ar ein hathrawon o ran hyfforddiant ychwanegol [...] i'w darparu .

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Amlygodd eraill eu bod yn gweld bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol presennol yn amrywio o ran eu hansawdd a'u graddau. Canfu rhai, er enghraifft, sesiynau llai, mwy dwys yn fwy gwerthfawr na chyflwyniadau a oedd yn cynnig gwybodaeth.

Cefnogaeth Allanol

Roedd categori arall o gymorth yn cynnwys tynnu ar arbenigedd sefydliadau allanol i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm a chyflwyno addysgu a dysgu. Dywedodd rhai ysgolion eu bod wedi gwahodd siaradwyr allanol i archwilio rhai o'r themâu a'r pynciau a drafodwyd mewn ACRh gydag ymarferwyr. Canfuwyd bod hyn yn werthfawr o ran codi ymwybyddiaeth a magu hyder mewn rhai pynciau. Dywedodd eraill fod hwyluso a chymorth ehangach, gan gynnwys gan yr awdurdod lleol, wedi bod yn amhrisiadwy:

Rydym wedi bod yn ffodus yn [yr awdurdod lleol. Maent wedi] trefnu pob math o hyfforddiant ar gyfer ACRh ac ar gyfer [crefydd, gwerthoedd a moeseg] hefyd. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau hyfforddi staff ar ôl ysgol ar ddydd Mawrth, a chredaf fod hynny'n ddefnyddiol iawn oherwydd mae [...] nid yn unig yn rhoi rhywfaint o hyfforddiant ffurfiol i ni, [...] mae hefyd yn caniatáu i ni drafod gyda staff eraill [...] beth sy'n digwydd, sut mae pobl yn symud ymlaen, a'r math yna o beth. Mae hynny wedi bod yn beth positif iawn sy'n digwydd [...].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Disgrifiodd eraill ddefnyddio asiantaethau a sefydliadau allanol i gyflwyno elfennau o addysgu a dysgu. Roedd teimladau cymysg ynghylch pa mor effeithiol oedd y dull hwn. Roedd rhai yn ei weld yn werthfawr, er enghraifft, gan ei fod yn tawelu meddwl rhieni yn enwedig wrth ymdrin â phynciau sensitif fel iechyd rhywiol. Canfu eraill eu bod wedi profi heriau ymarferol megis dod o hyd i slot priodol a oedd yn gweithio i'r sefydliad allanol a'r ysgol. Roedd rhai hefyd yn cwestiynu ansawdd cymharol y ddarpariaeth, a'i heffeithiolrwydd mewn addysgu a dysgu:

Trodd staff at arbenigwyr o fewn rhai meysydd — pan fyddwch yn meddwl am y glasod a sut yr eir i'r afael â hynny mewn ysgolion — ac fel arfer sut maent yn cael eu cyflwyno gan [y sefydliad allanol]. Nawr maen nhw wedi dyddio ar y cyfan o ran eu hagwedd [...]. Felly rwy'n meddwl bod gwaith i'w wneud yno hefyd o ran beth, sut a pha mor aml [rydym yn tynnu ar sefydliadau allanol].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

Pwysigrwydd Ansawdd Adnoddau a Chymorth

Ffrwd allweddol a oedd yn rhedeg ym mhob agwedd ar y sgysiau hyn oedd pwysigrwydd a heriau adnabod adnoddau a chymorth o ansawdd uchel. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol, adnoddau, a sefydliadau allanol. I rai, creodd hyn heriau, gan gynnwys cynyddu maint yr addasiadau sydd eu hangen i gyd-fynd ag anghenion dysgwyr ac wrth adlewyrchu teimlad cyffredinol ACRh.

9 Casgliadau

Yn gyffredinol, darparodd y Peilot ystod o fewnwelediadau gwerthfawr i sut mae ysgolion yn ymdrin ag ACRh, yn ogystal â galluogwyr ymarferol a rhwystrau i gynllunio a pharatoi. Mae wedi tynnu amrywiaeth o wersi ac awgrymiadau y gallai ysgolion eraill ledled Cymru ddymuno eu hystyried wrth iddynt ymdrin â'r cwricwlwm newydd.

Mae profiadau ysgolion Peilot yn amlygu pwysigrwydd y wybodaeth, y profiad a'r hyder sydd gan arweinwyr a chydweithwyr ehangach wrth gefnogi eu hymwneud ag ACRh. Gallai caniatáu amser a lle ar gyfer gwneud synnwyr, gan gynnwys archwilio'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh, fod yn werthfawr wrth gefnogi cynnydd wrth wreiddio ACRh o fewn cwricwlwm ysgol. Gallai sicrhau bod arweinwyr yn cael mynediad at ddeialog broffesiynol o ansawdd uchel a chyfleoedd dysgu hefyd fod yn werthfawr, yn enwedig i ymarferwyr sydd efallai'n newydd i addysgu ACRh.

Mae profiadau'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng gwybodaeth a hyder. Wrth i arweinwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r cwricwlwm ACRh newydd, roeddent yn tueddu i adrodd llai o bryderon sylweddol a'u bod yn fwy bodlon ar sut y gallent fynd ati i addysgu a dysgu. Roedd pwysigrwydd a dulliau o sicrhau addysgu a dysgu sy'n briodol i ddatblygiad yn ystyriaeth allweddol wrth feithrin hyder.

Gyda'i gilydd, ystyriwyd bod ymgysylltu ag ACRh yn daith, o wneud synnwyr i gamau ymarferol wrth gynllunio a pharatoi cwricwlwm o fewn eu lleoliad. Yn ystod y Peilot, roedd ysgolion yn gallu gwneud cynnydd sylweddol, yn enwedig o ran datblygu dealltwriaeth o sut y gellid gwreiddio ACRh yn eu lleoliad. Roedd rhai ysgolion wedi gallu ystyried yn ymarferol sut i wreiddio ACRh ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn awgrymu bod amser a gofod yn bwysig hefyd, lle mae ymarferwyr yn archwilio ACRh, yn arbrofi ag ef ac yna'n ei roi ar waith.

Effaith y Peilot

Arweiniodd y Peilot at ystod o ddeilliannau cadarnhaol, ar gyfer yr ysgolion a gymerodd ran ac o ran llywio datblygiad yr arweiniad a'r cymorth a gynigir i ysgolion ledled Cymru. Hysbysodd safbwyntiau'r ysgolion a gymerodd ran y broses o gryfhau'r Cod a'r Canllawiau Statudol ACRh drafft. Roedd mewnwelediadau ehangach yn hysbysu datblygiad agwedd genedlaethol o ddysgu ac addysgu proffesiynol yn ogystal ag adnoddau dysgu i gefnogi ysgolion. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhannu dysgu a phrofiadau gydag ysgolion eraill ledled Cymru. Roedd yr ysgolion a gymerodd ran hefyd wedi tynnu sylw at effaith gadarnhaol y Cynllun Peilot wrth gefnogi eu hymgysylltiad ag ACRh:

Rydw i wedi bod yn ddiolchgar iawn i fod yn rhan o hyn. Ers tua mis Hydref, mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn yma yn [yr ysgol].

Ymarferydd, Ysgol Gynradd

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

